# Cynllun Gweithredu
# **Coetiroedd i Gymru**

Yn dangos cynnydd gyda gweithredoedd erbyn mis Mawrth 2011.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

## SUT I DDEFNYDDIO'R PDF RHYNGWEITHIOL HWN

Lluniwyd y ddogfen hon fel PDF rhyngweithiol sy'n hawdd ei ddefnyddio.

Mae gan y PDF far llywio syml, a fydd bob amser yn ymddangos ar waelod y dudalen ar yr ochr dde. Mae'r bar hwn yn cynnwys y dewisiadau canlynol:

argraffu
Bydd y botwm argraffu yn caniatáu i ddefnyddwyr argraffu tudalennau penodol neu'r cynllun gweithredu cyfan. Sicrhewch fod argraffydd wedi'i gysylltu â'ch cyfrifiadur neu ar gael ar y rhwydwaith er mwyn argraffu unrhyw gynnwys. Yn eich blwch deialog argraffu, sicrhewch eich bod yn dewis 'fit to page'.

tudalen flaenorol
Bydd y botwm tudalen flaenorol yn mynd â defnyddwyr yn ôl i'r dudalen yr oeddent yn edrych arni yn flaenorol.

cynnwys
Bydd y botwm cynnwys yn mynd â defnyddwyr yn ôl i'r dudalen gynnwys, lle gallant weld tudalen gyntaf unrhyw ran o'r cynllun gweithredu hwn.

tudalen nesaf
Bydd y botwm nesaf yn mynd â defnyddwyr ymlaen i'r dudalen ddilynol.

## CYNNWYS

**Rhagair y Gweinidog** 3

**1: Cyflwyniad** 4

**2: Canlyniadau strategaeth Coetiroedd i Gymru** 5

**3: Strategaethau allweddol eraill Llywodraeth Cymru y gall camau gweithredu Coetiroedd i Gymru gyfrannu atynt** 6

**4: Monitro ac adrodd ar gynnydd** 9

**5: Sut mae'r Cynllun Gweithredu wedi ei osod ger bron** 9

**6: Tabl o Gamau Gweithredu yn cynnwys themâu, camau gweithredu a'r sefydliadau cyfrifol** 10

**Atodiadau**

**ATODIAD 1: Canlyniadau Strategaeth yr Amgylchedd mae Coetiroedd i Gymru yn helpu i'w cyflawni** 39

**ATODIAD 2: Byrfoddau a geirfa** 40-48

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn print bras ac ar ffurfiau eraill (e.e. Braille, tâp clywedol) drwy gysylltu â Chomisiwn Coedwigaeth Cymru ar y rhif ffôn neu'r cyfeiriad e-bost isod:

Ffôn: 03000680300 Ffacs: 03000680301

E-bost: fcwenquiries@forestry.gsi.gov.uk

(Codir am alwadau i rifau 0300 ar gyfradd 'Lo-call', beth bynnag yw tarddle'r galwad).

Gallwch hefyd gysylltu â ni am wybodaeth am gyfieithiadau neu er mwyn trefnu i swyddog eich ffonio i esbonio unrhyw faes/feysydd yn y cyhoeddiad hwn yr hoffech i ni ei egluro.

Mae pob delwedd yn © Hawlfraint y Goron o Lyfrgell Luniau y Comisiwn Coedwigaeth, oni nodir yn wahanol. Lluniwyd a chynhyrchwyd gan FBA DESIGN www.fbagroup.co.uk

## Rhagair y Gweinidog

Ym mis Mawrth 2009, lansiwyd ein Coetiroedd i Gymru wedi'i ddiweddaru, yn nodi strategaeth 50 mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer coetiroedd a choed. Y flwyddyn ganlynol, cyhoeddom Gynllun Gweithredu Coetiroedd i Gymru 2010-15, a wnaeth amlygu cyfres o weithgareddau cynlluniedig i helpu i gyflwyno nodau'r strategaeth. Ar ôl blwyddyn yn unig, rwy'n falch gweld y cynnydd sydd wedi cael ei wneud trwy gamau'r Cynllun hwn.

Gall coetiroedd a choed gyflwyno buddion sylweddol i bobl Cymru, ac maen nhw'n gwneud hynny. Yn ogystal â buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, maen nhw hefyd yn mynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd. Rhywbeth sydd yn aml yn cael ei esgeuluso yw gallu coetiroedd a choed i ddarparu'r buddion hyn yn gydamserol mewn ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd. Am y rheswm hwn, mae Llywodraeth Cymru eisiau gweld arwynebedd coetiroedd yng Nghymru yn cynyddu, ac rydym wedi gosod targed uchelgeisiol i greu 100,000 hectar o goetir ychwanegol, newydd erbyn 2030.

Rydym yn cydnabod y gall coetiroedd sy'n cael eu rheoli'n dda gyflwyno ystod eang o nwyddau a gwasanaethau, ac felly rydym eisiau gweld mwy o'r coetiroedd presennol nad ydynt yn cael eu rheoli, ac mae'r rhan fwyaf o'r rhain ar ffermydd, yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Rydym eisiau gweld coetiroedd yn rhan o ymagwedd integredig at reoli tir yng Nghymru i gyflwyno mwy o nwyddau a gwasanaethau mewn modd mwy cysylltiedig.

Mae'r Cynllun hwn yn cynnwys camau i helpu i wneud ein coetiroedd yn fwy amrywiol i wrthsefyll hinsawdd sy'n newid a bygythiadau cysylltiedig o blâu a chlefydau. Yn ogystal ag addasu i newid yn yr hinsawdd, gall coetiroedd helpu i reoli ei effeithiau er budd cymdeithas. Gallant helpu i reoli llifogydd, darparu cysgod i oeri ardaloedd trefol, gwella draeniad a gwneud ein trefi a'n dinasoedd yn fwy deniadol.

Rydym eisiau gweld y defnydd o gynhyrchion pren a choetiroedd yn cynyddu i helpu i ostwng ein ôl-troed carbon trwy amnewid am ddeunyddiau mwy ynni dwys, fel dur a choncrit ac fel amnewidyn ar gyfer ffosil. Bydd galw cynyddol yn helpu i gynnal ac ehangu ein diwydiannau coedwig, yn darparu mwy o swyddi ac yn hybu'r cyfraniad y mae'r sector busnes coedwig yn ei wneud i economi Cymru. Mae'r coetiroedd eu hunain, fel cyrchfan i ymwelwyr, hefyd yn gwneud cyfraniad sylweddol at economi Cymru ac ni ddylid esgeuluso hyn. Mae coetiroedd Cymru'n cael eu cydnabod fel cyrchfan o'r radd flaenaf ar gyfer beicio mynydd, er enghraifft, ac maent hefyd yn cael eu gwerthfawrogi fel lleoedd i gerdded a mwynhau heddwch a thawelwch cefn gwlad.

Mae'r buddion cymdeithasol y gall coetiroedd eu darparu o werth penodol i bobl Cymru. Maen nhw'n lleoedd i bobl leol gerdded, ymlacio, a gwella eu hiechyd a lles yn gyffredinol mewn amgylchedd awyr agored, a gall weithredu fel canolbwynt ar gyfer gweithgarwch cymunedol lleol. Gallant hefyd ddarparu lleoliad ardderchog ar gyfer dysgu, gwella ymddangosiad gweledol y dirwedd a chyfrannu tuag at adfywio.

Rwy'n ddiolchgar i'r sefydliadau hynny sy'n mynd i'r afael â chyflwyno'r gweithredoedd yn y Cynllun hwn, a hefyd i'r Panel Cynghori ar y Strategaeth Coetiroedd am ei gyfraniad annibynnol wrth ei baratoi.

Edrychaf ymlaen at weld rhagor o gynnydd dros y blynyddoedd nesaf.

**John Griffiths AC - Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy gyda chyfrifoldeb am goedwigaeth yng Nghymru**

# 1. Cyflwyniad

Dyma'r cynllun gweithredu cyntaf i'w gyhoeddi ar gyfer Coetiroedd i Gymru, ein strategaeth 50 mlynedd ar gyfer coetiroedd a choed. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn amlinellu'r gweithgareddau allweddol y bydd angen ymgymryd â nhw er mwyn cyflawni'r 20 canlyniad a nodir yn y strategaeth. Mae'n esbonio'r hyn y mae angen ei wneud a phwy sy'n gyfrifol am roi arweiniad wrth fynd â'r camau gweithredu hyn yn eu blaenau.

Wedi ei gyhoeddi gyntaf yn 2001, adolygwyd Coetiroedd i Gymru a'i ail-lansio ym mis Mawrth 2009 yn dilyn ymgynghori helaeth â'r cyhoedd. Gellir gweld y strategaeth yn:

Dolen: Coetiroedd i Gymru

Pan gyhoeddwyd hi gyntaf, roedd canolbwynt y strategaeth ar bobl, rheoli coetiroedd, gwasanaethau a swyddi. Mae'r rhain yn flaenoriaethau allweddol o hyd, ond roedd angen i'r strategaeth ddiwygiedig fynd i'r afael ag ystyriaethau a oedd yn dod i'r amlwg hefyd, yn enwedig effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Mae ein Coetiroedd i Gymru diwygiedig yn rhoi ystyriaeth i addasu i newid yn yr hinsawdd a'i liniaru, a chydnabod y gall coetiroedd a choed gyflawni buddiannau lluosog ar yr un pryd ac yn yr un lle. Mae'r strategaeth yn nodi'r gwasanaethau amgylcheddol y gall coetiroedd eu cynnig megis cymryd lle tanwyddau ffosil, storio carbon a'n cynorthwyo i ymdopi ag effeithiau hinsawdd sy'n newid.

Mae'r strategaeth ddiwygiedig hefyd yn anelu at gynyddu ymgysylltiad pobl gyda choetiroedd a choed, a sicrhau bod modd cael at yr ystod lawn o gyfleoedd gan bob adran o'n cymdeithas amrywiol mewn ffordd deg.

Ers ei chyhoeddi yn 2001 mae gwaith sylweddol wedi ei wneud i gyflawni nodau'r strategaeth gyntaf. Cyhoeddwyd adroddiad cynnydd 5 mlynedd yn 2006 a gellir gweld yr adroddiad yn:

Dolen: Cynllun Gweithredu Pum Mlynedd

Gan adeiladu ar y cyflawniadau hyn ac ystyried polisïau a rhaglenni ychwanegol, megis y Strategaeth Amgylcheddol, mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn edrych ymlaen dros y pum mlynedd nesaf. Manylir ar y camau gweithredu sydd eu hangen i wneud cynnydd pellach erbyn 2015 yn Adran 6, a chaiff y Cynllun Gweithredu ei adolygu'n gyfnodol yn ystod ei hyd oes o bum mlynedd.

## 2. Canlyniadau strategaeth Coetiroedd i Gymru

Bydd y camau gweithredu yn y Cynllun hwn yn helpu i gyflawni 20 canlyniad Coetiroedd i Gymru, sydd wedi'u grwpio o dan y 5 thema strategol: Coetiroedd a choed Cymru; ymateb i'r newid yn yr hinsawdd; coetiroedd i bobl; sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig; ac ansawdd yr amgylchedd.

Y canlyniadau hyn yw:

### Coetiroedd a choed Cymru

1. Mwy o goetiroedd a choed yn cael eu rheoli'n gynaliadwy
2. Ecosystemau coetiroedd yn iach ac yn wydn
3. Coetiroedd wedi'u haddasu'n well er mwyn cynnig ystod eang o fanteision
4. Gorchudd coetir yng Nghymru'n cynyddu
5. Mwy o gysylltiad rhwng rheoli coetiroedd a choed a defnydd arall o dir
6. Coetiroedd a choed trefol yn cynnig ystod eang o fanteision

### Ymateb i'r newid yn yr hinsawdd

7. Coetiroedd Cymru'n helpu i leihau ôl troed carbon Cymru

### Coetiroedd i Bobl

8. Mwy o gymunedau'n elwa o ganlyniad i goetiroedd a choed
9. Mwy o bobl yn mwynhau'r manteision y gall coetiroedd a'u cynnyrch eu cynnig o safbwynt dysgu gydol oes
10. Mwy o bobl yn byw bywydau iach o ganlyniad i'w defnydd a'u mwynhad o goetiroedd
11. Mwy o bobl yn elwa o ganlyniad i fentrau sy'n gysylltiedig â choetiroedd

### Sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig

12. Mwy o goed wedi'u tyfu yng Nghymru'n cael eu defnyddio yng Nghymru
13. Y sector coedwigaeth wedi'i integreiddio'n well, yn fwy cystadleuol, ac yn cefnogi economi Cymru
14. Mwy o ddefnydd o goed fel adnodd adnewyddadwy pwysig
15. Gweithlu medrus, llwyddiannus yn y sector coedwigaeth

### Ansawdd yr amgylchedd

16. Rheolaeth coetiroedd yn sicrhau stiwardiaeth amgylcheddol o safon uchel
17. Coetiroedd a choed sydd o werth cadwraethol arbennig yn cael eu rheoli mewn modd ffafriol
18. Bioamrywiaeth coetiroedd yn cael ei chefnogi a choetiroedd brodorol yn cael eu rheoli mewn modd ffafriol
19. Coetiroedd a choed yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymeriad arbennig tirwedd Cymru ac i safleoedd sy'n bwysig o ran treftadaeth a diwylliant
20. Coed a choetiroedd newydd, a'r rhai sy'n bodoli'n barod, yn cyfrannu at reolaeth dŵr a phridd

# 3. Strategaethau allweddol eraill Llywodraeth Cymru y gall camau gweithredu Coetiroedd i Gymru gyfrannu atynt

## Newid yn yr Hinsawdd

Mae mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn un o'n blaenoriaethau allweddol ac yn 2007 sefydlasom y Comisiwn Newid yn yr Hinsawdd cyntaf yn y Deyrnas Unedig.

Rydym wedi ymrwymo i gyflawni gostyngiad blynyddol o 3% mewn allyriadau sy'n cyfateb i garbon o 2011 mewn ardaloedd â chymwyseddau datganoledig. Gall coetiroedd a choed gynorthwyo i gyfrannu at y targed uchelgeisiol hwn drwy:

- **ddal a storio**, gall coed sy'n tyfu gloi carbon yn eu gwreiddiau a'u canghennau, ac mae hyd yn oed mwy o garbon yn cael ei storio yn y pridd ei hun
- **amnewid** mewn nifer o ffyrdd; er enghraifft, gall tanwydd pren weithredu fel ffynhonnell ynni carbon niwtral i gymryd lle tanwyddau ffosil a gall coed a ddefnyddir wrth adeiladu gymryd lle deunyddiau ynni dwys fel concrid a dur.

Mae angen i goetiroedd a choed fod yn wydn a gallu addasu i hinsawdd sy'n newid eu hunain. Gall coetiroedd a choed hefyd gyflawni ystod o fuddiannau cymdeithasol ac amgylcheddol eraill fel cynorthwyo i reoli llifogydd a chymedroli tymheredd mewn ardaloedd trefol drwy greu cysgod.

Mae sawl cam gweithredu yn y Cynllun yn disgyn i'r thema strategol yn Coetiroedd i Gymru, sef ymateb i newid yn yr hinsawdd. Mae'r thema hon yn drawsbynciol ac mae'n bwysig nodi y bydd camau gweithredu o dan y 4 thema arall yn gwneud cyfraniad uniongyrchol at fynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd hefyd.

Dolen: Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd

## Strategaeth yr Amgylchedd Cymru

Mae Strategaeth yr Amgylchedd Cymru yn cydnabod gwerth coetiroedd ar gyfer cyflawni sbectrwm o fuddiannau amgylcheddol. Gwelir Coetiroedd i Gymru fel mecanwaith cyflawni ar gyfer 12 o 39 canlyniad Strategaeth yr Amgylchedd (a restrir yn Atodiad 1). Cydnabyddir bod coetiroedd a choed yn cyflawni gwasanaethau ecosystemau ac yn mynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae Strategaeth yr Amgylchedd hefyd yn nodi bod rheolaeth effeithiol yn amddiffyn bioamrywiaeth, safleoedd dynodedig a choetiroedd hynafol.

Dolen: Cynllun Gweithredu Strategaeth yr Amgylchedd

## Plant!

Mae'r fenter Plant! yn cefnogi ymrwymiad i ddarparu cefnogaeth ar gyfer coetiroedd cynhenid drwy blannu coeden ar gyfer pob babi newydd a phlentyn a fabwysiadwyd yng Nghymru, gan helpu i greu Coedwig Genedlaethol Gymreig o goed brodorol i weithredu fel suddfan carbon, a gyflwynwyd gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru mewn partneriaeth â Choed Cadw (The Woodland Trust) ar ran Llywodraeth Cymru.

## Trywydd Ynni Adnewyddadwy a Chynllun Gweithredu Bio-Ynni Llywodraeth Cymru

Mae drafftiau'r Trywydd Ynni Adnewyddadwy a'r Cynllun Gweithredu Bio-Ynni yn dangos y gall tanwydd pren a biomas cartref wneud cyfraniad bychan ond arwyddocaol at y sector ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Yn ychwanegol at y tanwydd pren a ddaw o goetiroedd sydd ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru mae cyfle i gynyddu cyfraniad coetiroedd eraill at gynhyrchu ynni adnewyddadwy, drwy wella'r rheolaeth ar goetiroedd.

Dolen: Ymgynghoriad Trywydd Ynni Adnewyddadwy Cymru

Dolen: Ymgynghoriad Cynllun Gweithredu Bio-Ynni i Gymru

llun: R. Francis - Llyfrgell Lluniau Coed Cadw

## Cynllun Datblygu Gwledig (CDG) i Gymru 2007-13

Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig i Gymru yn rhan o strategaeth Llywodraeth Cymru/yr Undeb Ewropeaidd (UE) i wneud ein gwlad yn lle gwell i fyw a gweithio ynddi. Mae edrych ar ôl yr amgylchedd ac annog datblygu economaidd cynaliadwy yn ddau o'r nodau pwysicaf yn y Cynllun.

Bydd nifer o'r camau gweithredu yn y cynllun hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni ar draws dau o amcanion (Echelinau) y cynllun:

- Echelin 1 - Gwella cystadleurwydd y sector amaeth a choedwigoedd
- Echelin 2 - Gwella'r amgylchedd a chefn gwlad drwy reoli tir

ac yn anuniongyrchol at y ddau amcan arall:

- Echelin 3 - Gwella ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig ac arallgyfeirio'r economi wledig
- Echelin 4 - Ymagwedd Leader, sy'n cynorthwyo strategaethau datblygu lleol sy'n cael eu harwain gan y gymuned.

## 4. Monitro ac adrodd ar gynnydd

Mae gofyniad i gasglu tystiolaeth ar draws yr holl themâu Coetiroedd i Gymru, i gefnogi'r gwaith cyflawni a mesur llwyddiant. O dan y Cynllun Gweithredu mae angen i gasglu gwybodaeth a thystiolaeth newydd sy'n gofyn am sefydlu safleoedd ymchwil a chyfres o brosiectau peilot.

Byddwn yn defnyddio ystod o fesurau i fonitro cynnydd, ac yn cyhoeddi cyfres o ddangosyddion ar gyfer Coetiroedd i Gymru, i'n helpu i asesu cynnydd tuag at gyflawni 20 canlyniad y strategaeth.

Ar ddiwedd cyfnod y Cynllun Gweithredu yn 2015 byddwn yn adrodd ar:

- gynnydd tuag at gyflawni pob cam gweithredu
- y cyfraniadau y mae meysydd polisïau eraill Llywodraeth Cymru wedi eu gwneud i gyflawni canlyniadau Coetiroedd i Gymru

## 5. Sut mae'r Cynllun Gweithredu wedi ei osod ger bron

Mae'r Cynllun Gweithredu wedi ei osod ger bron ar ffurf tabl, gyda'r camau gweithredu wedi'u grwpio o dan y 5 thema strategol a phob un o'r 20 canlyniad a geir yn Coetiroedd i Gymru.

Mae'r tabl yn dangos:

**Canlyniadau** Coetiroedd i Gymru - os byddwch yn 'hofran uwchben' y symbol *i*, fe welwch yr hyn y dywedodd y strategaeth y byddem yn ei wneud i roi'r canlyniad hwnnw ar waith – rhestrwyd y rhain yn y strategaeth fel "er mwyn gwireddu hyn, byddwn yn". Mae cam gweithredu penodol yn y Cynllun hwn ar gyfer y rhan fwyaf (ond nid pob un) o'r pwyntiau ar y rhestrau "er mwyn gwireddu hyn, byddwn yn".

**Camau gweithredu** - caiff pob un ei restru unwaith yn unig, ond, yn ymarferol, bydd pob cam gweithredu yn cyfrannu at fwy nag un o'r 20 canlyniad, yn aml ar draws sawl thema strategol.

**Sefydliadau arweiniol a phrif gyrff cefnogi** sy'n cyfrannu at gyflawni'r cam gweithredu - gyda'r sefydliad(au) arweiniol wedi ei ddangos/eu dangos mewn print trwm, a'r prif gyrff cefnogi mewn testun arferol. Os byddwch yn 'hofran uwchben' y byrfoddau, fe welwch enw llawn y sefydliad(au).

Nid yw'r rhestrau'n hollgynhwysfawr a bydd llawer o sefydliadau eraill yn cyfrannu at y partneriaethau gwaith effeithiol sydd eu hangen.

**Canlyniadau ychwanegol** y mae pob cam gweithredu yn cyfrannu at eu cyflawni, wedi'u rhestru'n rhifiadol. Mae 20 canlyniad strategaeth Coetiroedd i Gymru i'w gweld ar dudalen 5.

**Cynnydd erbyn mis Mawrth 2011** - mae'n crynhoi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â phob gweithred (caiff ei ddiweddaru bob blwyddyn).

## 6. Tabl o Gamau Gweithredu yn cynnwys themâu, camau gweithredu a'r sefydliadau cyfrifol

**Cliciwch ddolen isod i fynd â chi i'r tabl o gamau gweithredu ar gyfer thema benodol Coetiroedd i Gymru:**

**Dolen: Coetiroedd a choed Cymru**
**Dolen: Ymateb i'r Newid yn yr Hinsawdd**
**Dolen: Coetiroedd i Bobl**
**Dolen: Sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig**
**Dolen: Ansawdd yr Amgylchedd**

## Allwedd i Dablau'r Cynllun Gweithredu

**Testun TRWM** **Sefydliadau arweiniol -** y sefydliad(au) a fydd yn cyflawni'r camau gweithredu hyn yn y cynllun, gan gydweithio â sefydliadau eraill)

Testun ARFEROL Prif gyrff cefnogi - (a fydd yn cyfrannu at gyflawni'r cam gweithredu gyda'r sefydliad(au) arweiniol)

*i* Ceir mwy o wybodaeth trwy ddewis y ddolen

Os byddwch yn 'hofran uwchben' y byrfoddau, fe welwch enw llawn y sefydliad(au).

6. Tabl o Gamau Gweithredu yn cynnwys themâu, camau gweithredu a'r sefydliadau cyfrifol

**Coetiroedd a choed Cymru**

| **Canlyniad** | **Cam Gweithredu** | **Sefydliadau arweiniol** gyda'r prif gyrff cefnogi | **Canlyniadau ychwanegol a gefnogir** | **Cynnydd erbyn mis Mawrth 2011** |
|---|---|---|---|---|
| **1. Mwy o goetiroedd a choed yn cael eu rheoli'n gynaliadwy** | a) Cwblhau'r adolygiad o Safon Goedwigaeth y DU (UKFS) a'r canllawiau cysylltiedig; cyhoeddi'r UKFS a'r canllawiau diwygiedig; a hyrwyddo'r rhain i berchenogion a rheolwyr coetiroedd yng Nghymru. | **FCGB, CCC** | 2, 3, 16 | I'w gyhoeddi yn yr haf 2011 |
| | b) Hyrwyddo manteision ardystio yn erbyn Cynllun Ansawdd Coetiroedd y DU (UKWAS) i berchenogion a rheolwyr coetiroedd yng Nghymru. | **FSC, PEFC** | 2, 3, 16 | Parhaus |
| | c) Cynnal ardystiad UKWAS ar gyfer Ysted Goedwig Llywodraeth Cymru. | **CCC** | 2, 3, 16 | Cadwyd ardystiad UKWAS; cwblhawyd archwiliad cydymffurfio llwyddiannus yn Rhanbarth Coedwig Coed y Mynydd ym mis Medi 2010 |
| | ch) Adolygu'r cynllun grant coetiroedd presennol, Coetiroedd Gwell i Gymru, er mwyn alinio ei flaenoriaethau â rhai strategaeth ddiwygiedig Coetiroedd i Gymru. | **CCC,** Grŵp Rhanddeiliaid CGG | 2, 3, 4, 5, 7, 8, 9, 10, 16, 17, 18, 19, 20 | Mae CGG/BWW bellach wedi'i gau i ymgeiswyr newydd. Bydd angen parhau i reoli'r cynllun hyd 2016. Mae grantiau Creu Coetir Glastir yn awr yn cael eu gweinyddu gan CCC drwy'r cynllun Glastir - cynllun grantiau rheoli tir integredig LlC. Bydd grantiau rheoli coetir ar gael drwy Glastir o 2013. Mae staff Grantiau a Rheoliadau CCC yn gysylltiedig â datblygu elfen rheoli coetir y cynllun grant Glastir |
| **1. Mwy o goetiroedd a choed yn cael eu rheoli'n gynaliadwy** | d) Symleiddio'r broses o gael cymorth grant i berchenogion a rheolwyr coetiroedd bach. | **CCC,** Grŵp Rhanddeiliaid CGG | 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 16, 17, 18, 19, 20 | Mae cynllun Coedwigoedd Bychain CGG bellach ar gau i ymgeiswyr newydd. Bydd yn bosibl cael cymorth ar gyfer rheoli coetiroedd drwy Glastir o 2013. |

6. Tabl o Gamau Gweithredu yn cynnwys themâu, camau gweithredu a'r sefydliadau cyfrifol
**Coetiroedd a choed Cymru**

| **Canlyniad** | **Cam Gweithredu** | **Sefydliadau arweiniol** gyda'r prif gyrff cefnogi | **Canlyniadau ychwanegol a gefnogir** | **Cynnydd erbyn mis Mawrth 2011** |
|---|---|---|---|---|
| | dd) Sicrhau, wrth adolygu'r CDG a datblygu Glastir, yr ystyrir yr angen am gyllid er mwyn annog y gwaith o reoli coetiroedd a choed ar ffermydd, a chreu coetiroedd fferm ychwanegol. | **LlC - Grŵp Rhaglen Glastir DRA,** CCC | 2, 3, 4, 5, 16, 20 | Mae grantiau Creu Coetir Glastir yn cael eu gweinyddu gan CCC ar hyn o bryd drwy'r cynllun Glastir – cynllun grantiau rheoli tir integredig LlC. Mae Glastir yn cynnwys ffermwyr fel un o'i brif dargedau ar gyfer grantiau. Mae grantiau rheoli coetir drwy Glastir yn parhau i gael eu datblygu a byddant ar gael yn 2013. Mae staff Grantiau a Rheoliadau CCC yn gysylltiedig â datblygu elfen rheoli coetir y cynllun grant Glastir. |
| | e) Rheoli mwy o goetiroedd trwy ddatblygu'r cynllun grant Camau Cyntaf er mwyn annog perchenogion coetiroedd i ddechrau rheoli eu coetiroedd. | **CCC** | 2, 3, 5, 7, 11, 14, 16, 20 | Rhoddwyd y gorau i ddatblygu Camau Cyntaf/First Steps. Bydd yn bosibl cael cymorth ar gyfer rheoli coetiroedd drwy Glastir o 2013 |
| **2. Ecosystemau coetiroedd yn iach ac yn wydn** | a) Ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd ac amddiffyn coed a choetiroedd, defnyddio rhwydweithiau rhanddeiliaid presennol i wella ymwybyddiaeth, rhannu gwybodaeth, monitro a rheoli. | **FR, FCGB** LlC - Cangen Biotechnoleg ac Iechyd Planhigion, CCGC, ConFor | 1, 3, 16, 17,18 | Yn parhau drwy Ymchwil Coedwig. Mae CCC, drwy Swyddog Prosiect Phytophthora, yn gyfrifol am reoli lledaeniad *Phytophthora ramorum* yng Nghymru. Mae'r cynllun cyfathrebu ar gyfer rheoli'r clefyd yn manteisio ar rwydweithiau o randdeiliaid |
| | b) Datblygu a gweithredu Cynllun Gweithredu Rheoli Ceirw i Gymru, gyda mewnbwn gan bob rhanddeiliad perthnasol. | **CCC,** Menter Ceirw Cymru, CCG a LLC - Adran Materion Gwledig | 1, 16, 17, 19 | Cyhoeddwyd y strategaeth Rheoli Ceirw Gwyllt yng Nghymru ym mis Chwefror 2011. Mae cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu ac fe'i cyhoeddir yn ddiweddarach yn 2011 |

6. Tabl o Gamau Gweithredu yn cynnwys themâu, camau gweithredu a'r sefydliadau cyfrifol
**Coetiroedd a choed Cymru**

| Canlyniad | Cam Gweithredu | **Sefydliadau arweiniol** gyda'r prif gyrff cefnogi | **Canlyniadau ychwanegol a gefnogir** | **Cynnydd erbyn mis Mawrth 2011** |
|---|---|---|---|---|
| **2. Ecosystemau coetiroedd yn iach ac yn wydn** | c) Datblygu a gweithredu Cynllun Gweithredu Rheoli Gwiwerod Llwyd i Gymru, gyda mewnbwn gan bob rhanddeiliad perthnasol. | **CCC,** FR, (PBC) | 1, 16, 17, 19 | Mae CCC yn cynnal prosiect peilot yn Rhanbarth Coedwig Llanymddyfri a ddefnyddir wrth ddatblygu cynllun Rheoli a Gweithredu |
| | ch) Cymryd camau i ddatblygu dull strategol o fynd i'r afael â rhywogaethau ymledol sy'n niweidio cynefinoedd coetirol (fel Rhododendron, Clymog Japan a Jac y Neidiwr). | **Fforwm Rhywogaethau Ymledol Anfrodorol PBC** | 1,16, 17, 18 | Rydym yn bwrw ymlaen â gwaith rheoli Rhododendron drwy grŵp Rhywogaethau Ymledol Anfrodorol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (WBP) |
| | d) Datblygu a chyhoeddi arweiniad ar gynyddu amrywiaeth coetiroedd yng Nghymru, a defnyddio'r arweiniad hwn yn Ystad goetiroedd Llywodraeth Goedwig Cymru. Hyrwyddo'r arweiniad ac annog perchenogion coetiroedd eraill i'w ddefnyddio. | **CCC, FR** | 1, 3, 5, 7, 16, 18 | Cyhoeddodd CCC arweiniad ym mis Hydref 2010 ar gynyddu'r amrywiaeth o rywogaethau coed (http://www.forestry.gov.uk/forestry/infd-8bag9s) a chafodd ei ddosbarthu'n fewnol i staff CCC ac i'r sector coedwigaeth ehangach drwy weithdai a drefnwyd gan Bartneriaeth Busnes Coedwig Cymru (WFBP) (http://www.welshtimberforum.co.uk/) a ConFor (www.confor.org.uk/). Mae'r arweiniad yn cael ei weithredu ar Ystad Goedwig Llywodraeth Cymru |
| **3. Coetiroedd wedi'u haddasu'n well er mwyn cynnig ystod eang o fanteision** | a) Datblygu a defnyddio modelau i archwilio manteision/effeithiau lleihau dibyniaeth ar gwympglirio trwy fabwysiadu ystod o systemau ac arferion coedamaeth eraill. Datblygu a darparu arweiniad ar symud oddi wrth drefnau rheoli cwympglirio, lle bo hynny'n briodol, a defnyddio'r arweiniad hwn yn Ystad Goedwig Llywodraeth Cymru. Hyrwyddo'r arweiniad ac annog perchenogion coetiroedd eraill i'w ddefnyddio. | **FR, CCC,** Grŵp Coedwigaeth Orchudd Ddi-dor | 1, 2, 7, 12 | Cwblheir y gwaith modelu cychwynnol a darperir arweiniad erbyn mis Mawrth 2014, i helpu gyda rhagolygon cynhyrchu 2016 |

6. Tabl o Gamau Gweithredu yn cynnwys themâu, camau gweithredu a'r sefydliadau cyfrifol

**Coetiroedd a choed Cymru**

| **Canlyniad** | **Cam Gweithredu** | **Sefydliadau arweiniol** gyda'r prif gyrff cefnogi | **Canlyniadau ychwanegol a gefnogir** | **Cynnydd erbyn mis Mawrth 2011** |
|---|---|---|---|---|
| **3. Coetiroedd wedi'u haddasu'n well er mwyn cynnig ystod eang o fanteision** | b) Casglu tystiolaeth i fesur ac arfarnu costau coetiroedd a choed nad ydynt yn gostau marchnad, a'u manteision. | **FR, CCC** | 1, 2, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 17, 18, 19, 20 | Mae dau ddarn o waith ar y gweill sy'n benodol i Gymru:<br>• Mae dadansoddiad portffolio'n cael ei ddatblygu a ddefnyddir i asesu buddion coetiroedd Ystad Goedwig Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys buddion nad ydynt yn ymwneud â'r farchnad megis storio carbon, ansawdd dŵr, hamdden ac addysg.<br>• Ar hyn o bryd mae gwaith yn cael ei wneud fel rhan o'r Fframwaith Amgylchedd Naturiol ar brisio gwasanaethau Ecosystem - a fydd yn cynnwys astudiaeth achos o goetir. Yn ogystal, mae Grŵp Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd Ymchwil Coedwig yn parhau i weithio ar ran yr holl wledydd i ystyried buddion nad ydynt yn ymwneud â'r farchnad. Gweler: Economeg coedwig: gwerthuso, prisio a chymhellion http://www.forestry.gov.uk/fr/INFD-5XNKRC |
| | c) Wrth ddatblygu Coetiroedd Gwell i Gymru a Glastir, ystyried y gwasanaethau ecosystem, nad ydynt yn wasanaethau marchnad, a ddarperir gan goed a choetiroedd. | **LIC - Grŵp Rhaglen Glastir DRA, CCC, Canolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru** | 1, 2, 4, 5, 7, 19, 20 | Lansiwyd Cynllun Creu Coetir Glastir ym mis Hydref 2010. Mae elfen rheoli coetir Glastir yn cael ei datblygu a chaiff ei lansio yn 2013 |

6. Tabl o Gamau Gweithredu yn cynnwys themâu, camau gweithredu a'r sefydliadau cyfrifol

**Coetiroedd a choed Cymru**

| **Canlyniad** | **Cam Gweithredu** | **Sefydliadau arweiniol** gyda'r prif gyrff cefnogi | **Canlyniadau ychwanegol a gefnogir** | **Cynnydd erbyn mis Mawrth 2011** |
|---|---|---|---|---|
| **4. Gorchudd coetir yng Nghymru'n cynyddu** | a) Datblygu offer cynllunio gofodol i nodi ardaloedd â blaenoriaeth ar gyfer creu coetiroedd a datblygu rhaglen ar gyfer creu coetiroedd ledled Cymru, gan ddefnyddio Ardal Adfywio Strategol Blaenau'r Cymoedd yn ardal beilot. | **CCC, LlC - Grŵp Rhaglen Glastir DRA,** CCGC, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, WT, WFBP | 3, 5, 6, 7, 8, 9, 10,19, 20 | • Defnyddiodd cynllun coetir Blaenau'r Cymoedd, a gwblhawyd yn 2010, erfyn cynllunio gofodol a ddatblygwyd fel rhan o'r broses asesu. Mae hwn yn cael ei ddefnyddio bellach wrth asesu coetiroedd ac ardaloedd ar gyfer creu coetiroedd yng Nghymoedd y Gorllewin yn ystod 2011/12<br>• Cafodd map sy'n nodi ardaloedd ar gyfer creu coetiroedd drwy'r cynllun Glastir ei ddatblygu a'i gyhoeddi yn 2010. Cafodd ei gynhyrchu gan CCC, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cadw, Ymddiriedolaethau Archaeolegol a thîm Glastir LlC. Cymerodd Cyswllt Amgylchedd Cymru a'r Parciau Cenedlaethol ran mewn trafodaethau'n ymwneud â'i gynnwys |
| | b) Monitro'r gwaith o gael gwared â choetiroedd er mwyn adfer cynefinoedd â blaenoriaeth, a datblygu proses i sicrhau yr ystyrir hyn wrth osod targedau ar gyfer cynyddu'r gorchudd coetir. | **CCC, CCGC, WEL, FR,** WFBP | 1, 7, 18, 19, 20 | Mae prosiect ar y gweill i ddatblygu arweiniad ar gyfer blaenoriaethu gwaith adfer cynefinoedd mawn yng Nghymru sy'n cynnwys CCC, CCGC, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, a LlC |
| | c) Datblygu a chyhoeddi arweiniad i awdurdodau cynllunio a chynllunwyr er mwyn helpu i sicrhau bod gorchudd coed sy'n cael ei golli trwy ddatblygu yn cael ei gydadfer trwy greu coetiroedd mewn mannau eraill yng Nghymru. | **LlC,** CLlLC | 1, 6, 7 | Bydd arweiniad yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses o ddiwygio'r gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol a Pholisi Cynllunio Cymru |

6. Tabl o Gamau Gweithredu yn cynnwys themâu, camau gweithredu a'r sefydliadau cyfrifol

**Coetiroedd a choed Cymru**

| **Canlyniad** | **Cam Gweithredu** | **Sefydliadau arweiniol** gyda'r prif gyrff cefnogi | **Canlyniadau ychwanegol a gefnogir** | **Cynnydd erbyn mis Mawrth 2011** |
|---|---|---|---|---|
| **4. Gorchudd coetir yng Nghymru'n cynyddu** | ch) Rhoi camau gweithredu 4a, b ac c uchod ar waith, cefnogi mentrau a dulliau o gynyddu gorchudd coed a chreu coetiroedd newydd yng Nghymru, fel Coetiroedd Gwell i Gymru a'r fenter Plant! | **CCC,** LIC - DRA, WT | 6, 7, 8, 9, 10, 20 | Lansiwyd cynllun Creu Coetir Glastir ym mis Hydref 2010, a hyd at 31 Mawrth 2011 derbyniwyd 76 cofrestriad o ddiddordeb a chymeradwywyd 9 ohonynt. Mae'r cynllun Plant! yn parhau drwy'r bartneriaeth rhwng CCC, Coed Cadw ac eraill. Hyd yn hyn mae 130,000 o goed wedi cael eu plannu ar 5 safle yng Nghymru, gan greu 75 hectar o goetir |
| | d) Defnyddio'r Stocrestr Coedwigoedd Genedlaethol i fonitro'r gwaith o waredu ac ailosod coetiroedd yng Nghymru. | **FCGB, CCC** | 7, 19, 20 | Cafodd map wedi'i ddiweddaru y Rhestr Genedlaethol o Goedwigoedd (NFI) ar gyfer Cymru ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2011. Rhoddodd hwn ffigur diwygiedig ar gyfer cyfanswm arwynebedd coetiroedd Cymru, sef 303,500 hectar neu 14.3% o'r arwynebedd tir – 20,000 hectar yn fwy na'r amcangyfrif blaenorol a oedd yn seiliedig ar arolwg cynharach (Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed). Gwell technegau mesur sy'n gyfrifol am ran o'r gwahaniaeth hwn, a bydd mwy o wybodaeth am y rhestr ar gael yn ddiweddarach yn 2011. Mae arolwg maes dilysu NFI, a fydd yn parhau am bedair blynedd, yn cael ei gynnal ar hyn o bryd |

6. Tabl o Gamau Gweithredu yn cynnwys themâu, camau gweithredu a'r sefydliadau cyfrifol
**Coetiroedd a choed Cymru**

| Canlyniad | Cam Gweithredu | Sefydliadau arweiniol gyda'r prif gyrff cefnogi | Canlyniadau ychwanegol a gefnogir | Cynnydd erbyn mis Mawrth 2011 |
|---|---|---|---|---|
| **5. Mwy o gysylltiad rhwng rheoli coetiroedd a choed a defnydd arall o dir** *i* | a) Datblygu proses i sicrhau y caiff coetiroedd a choed eu hystyried fel mater o drefn fel rhan annatod o bolisi cynllunio a datblygu. | **LIC, Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, CLILC,** CCC | 3, 4, 6, 19, 20 | Yn parhau; manteisir ar y cyfle i ystyried coetiroedd a choed wrth ddiwygio'r Nodiadau Cyngor Technegol |
| | b) Hyrwyddo cynhwysiad coetiroedd a choed mewn dull integredig o reoli tir, a rhoi cyngor i dirfeddianwyr a rheolwyr trwy ddulliau fel Cyswllt Ffermio. | **LIC - Grŵp Rhaglen Glastir DRA,** CCC, CLILC, CCGC, Canolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru | 1, 3, 4, 11,12,19, 20 | Yn parhau drwy gynlluniau megis Glastir |
| **6. Coetiroedd a choed trefol yn cynnig ystod eang o fanteision** *i* | a) Arfarnu arfer gorau, a hyrwyddo manteision cynyddu gorchudd coed a choetiroedd mewn ardaloedd trefol ac amdrefol, gan ddefnyddio Ardal Adfywio Strategol Blaenau'r Cymoedd fel arddangosiad. Gweithio mewn partneriaeth ag eraill, yn enwedig awdurdodau lleol, annog mwy o fynediad cyhoeddus at yr adnodd hwn a mwy o ddefnydd ohono. | **CCC, CLILC,** Awdurdodau Lleol, CCGC, partneriaethau adfywio strategol (e.e. Blaenau'r Cymoedd) | 1, 4, 7, 8, 9, 10 | • Cwblhawyd cynllun coetir Blaenau'r Cymoedd yn 2010. Bydd yr offer a ddefnyddiwyd ar gyfer cynllun Blaenau'r Cymoedd yn cael eu defnyddio i gynhyrchu cynllun coetir strategol ar gyfer Ardal Adfywio Cymoedd y Gorllewin yn 2011/12<br>• Mae adolygiad o'r gorchudd coed mewn ardaloedd trefol yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ac fe'i cyhoeddir yn 2011<br>3. Mae cyfleoedd ar gyfer estyn y gorchudd coed mewn ardaloedd trefol yn cael eu hystyried a chânt eu datblygu yn 2011, gan weithio mewn partneriaeth, yn arbennig, â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Menter Goedwig y GIG ac awdurdodau lleol |
| | b) Codi ymwybyddiaeth o fanteision coed, ac o'r atebion y gallant eu darparu mewn amgylchedd trefol, a hyrwyddo coed fel rhan annatod o gynllunio a datblygu trefol. | **LIC, Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, CCC,** FR, AAC, CCGC | 7, 9, 10, 16, 20 | Parhaus |

6. Tabl o Gamau Gweithredu yn cynnwys themâu, camau gweithredu a'r sefydliadau cyfrifol
**Ymateb i'r Newid yn yr Hinsawdd**

| Canlyniad | Cam Gweithredu | Sefydliadau arweiniol gyda'r prif gyrff cefnogi | Canlyniadau ychwanegol a gefnogir | Cynnydd erbyn mis Mawrth 2011 |
|---|---|---|---|---|
| **7. Coetiroedd Cymru'n helpu i leihau ôl troed carbon Cymru** | a) Coladu a rhannu gwybodaeth am rôl coetiroedd a reolir yn gynaliadwy o ran lleihau allyriadau carbon trwy amnewid tanwydd pren a choed; amlygu'r cyfleoedd y mae hyn yn eu cynnig i ffermwyr, perchenogion coetiroedd eraill a rheolwyr. | **CCC, FR (coladu gwybodaeth), WFBP (rhannu gwybodaeth), Cyswllt Ffermio,** LIC - Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai | 1, 12, 14 | CCC ac Ymchwil Coedwig i ddarparu gwybodaeth ar y we ac yn y wasg a'r cyfryngau er mwyn hybu gwerth coetiroedd a'u cynhyrchion. Mae WFBP wedi bod yn hybu defnyddio tanwydd coed o ansawdd da, gan gynghori ar werth cymorth grant i annog rheoli coetiroedd i gynyddu cyflenwadau ac ymchwilio i wella cadwyn gyflenwi tanwydd coed |
| Mae newid yn yr hinsawdd yn un o themâu cyffredin y strategaeth a bydd llawer o'r camau gweithredu mewn rhannau eraill yn cyfrannu at ymateb i'w heffeithiau hefyd | b) Datblygu dull Coedwigaeth Cylchdro Byr yng Nghymru a rhoi arweiniad i berchenogion a rheolwyr. | **CCC,** FR | 4, 12, 13, 14, 20 | Datblygu'r ymagwedd ar gyfer Cymru erbyn 2014 |
| | c) Cwblhau'r gwaith o ddatblygu cod ymarfer da y DU ar gyfer prosiectau rheoli carbon coedwigoedd. | **FCGB,** CCC, Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, LIC - DRA | 1, 3, 4, 20 | Lansiwyd y Cod Carbon Coetiroedd ym mis Awst 2010 a chymeradwywyd prosiect peilot yng Nghymru, http://www.forestry.gov.uk/carboncode |

6. Tabl o Gamau Gweithredu yn cynnwys themâu, camau gweithredu a'r sefydliadau cyfrifol
**Ymateb i'r Newid yn yr Hinsawdd**

| **Canlyniad** | **Cam Gweithredu** | **Sefydliadau arweiniol** gyda'r prif gyrff cefnogi | **Canlyniadau ychwanegol a gefnogir** | **Cynnydd erbyn mis Mawrth 2011** |
|---|---|---|---|---|
| **7. Coetiroedd Cymru'n helpu i leihau ôl troed carbon Cymru** | ch) Datblygu, cyhoeddi a hyrwyddo arweiniad a chyngor ar dechnegau rheoli coetiroedd sydd â'r nod o reoli cydbwysedd carbon coetiroedd - trwy leihau colled carbon, gan gynnal effeithiolrwydd parhaus coetiroedd o ran cadw carbon (fel dalfa), amddiffyn priddoedd a chynhyrchu pren. | **FR, CCC,** WFBP, LIC - SEED, Cyswllt Ffermio | 1, 2, 3, 5, 14, 16, 20 | • Bydd adroddiad, wedi'i lunio gan Ymchwil Coedwig, yn cael ei gyhoeddi yn 2011. Bydd yn crynhoi gwybodaeth am stociau a llifoedd carbon yng nghoedwigoedd y DU, a llifoedd Nwyon Tŷ Gwydr eraill, a sut yr effeithir ar y rhain gan dyfiant a rheolaeth coedwigoedd.<br>• Mae CCC wedi cyhoeddi arweiniad ar amrywiaeth rhywogaethau (http://www.forestry.gov.uk/forestry/infd-8bag9s) a fydd yn rhoi gwybodaeth am y rhywogaethau i'w dewis i helpu i reoli cydbwysedd carbon coetiroedd a'i effeithiolrwydd parhaus. Yn ddiweddarach yn 2011 cyhoeddir arweiniad ar systemau coedwriaethol.<br>• Bydd y targed yng nghynllun WG i greu 100,000 hectar o goetir newydd erbyn 2030 yn cynyddu'r suddfan carbon a ddarperir gan goetiroedd. Mae prosiect ar y gweill i asesu'r adnodd mawn sydd dan goed yng Nghymru er mwyn anelu at ei adfer a lleihau colledion carbon o'r priddoedd hyn |

6. Tabl o Gamau Gweithredu yn cynnwys themâu, camau gweithredu a'r sefydliadau cyfrifol
**Ymateb i'r Newid yn yr Hinsawdd**

| Canlyniad | Cam Gweithredu | Sefydliadau arweiniol gyda'r prif gyrff cefnogi | Canlyniadau ychwanegol a gefnogir | Cynnydd erbyn mis Mawrth 2011 |
|---|---|---|---|---|
| **7. Coetiroedd Cymru'n helpu i leihau ôl troed carbon Cymru** | d) Datblygu, cyhoeddi a hyrwyddo canllawiau arfer da sy'n deillio o FUTUREforest. | **CCC a phartneriaid eraill yn yr UE** | 1, 2, 3, 16, 20 | Mae prosiect FUTUREforest wedi cynhyrchu nifer o ganllawiau arfer da sydd ar gael ar wefan FUTUREforest,http://www.future forest.eu/. Cyflwynwyd y rhain yng nghynhadledd FUTUREforest yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd 2010. Cyhoeddir y Canllawiau Arfer Da ar ffurf copi caled, ynghyd â'r adroddiad terfynol ar y prosiect a gyflwynir yng nghynhadledd FUTUREforest ym Mrwsel ym mis Mehefin 2011 |
| | dd) Datblygu, cyhoeddi a hyrwyddo arweiniad ar rôl coetiroedd a choed o ran ein helpu i addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Hyrwyddo gallu coed i leihau tymhereddau trwy ddarparu cysgod i bobl ac adeiladau, yn enwedig mewn ardaloedd trefol. Hyrwyddo eu gallu i helpu i leihau'r pwysau ar systemau draenio trefol. | **FR, CCC,** AAC, CLlLC | 3, 6, 20 | • Mae Ymchwil Coedwig wedi cyhoeddi amrywiaeth eang o lenyddiaeth sy'n cynnwys tystiolaeth wyddonol. Bydd adroddiad, y cyfrannodd CCC, CCGC ac AAC ato, yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn 2011 o dan y teitl:Woodland for water: a review of woodland measures for River Basin and Catchment Flood Management Plans. Ceir ynddo lawer o wybodaeth ar sut mae coed yn helpu cymdeithas i addasu i newid yn yr hinsawdd.<br>• Mae'r gwaith sy'n parhau yn Ardaloedd Adfywio Blaenau'r Cymoedd a Chymoedd y Gorllewin yn ceisio hybu gwerth coed i gymdeithas |

6. Tabl o Gamau Gweithredu yn cynnwys themâu, camau gweithredu a'r sefydliadau cyfrifol
**Coetiroedd i Bobl**

| **Canlyniad** | **Cam Gweithredu** | **Sefydliadau arweiniol** gyda'r prif gyrff cefnogi | **Canlyniadau ychwanegol a gefnogir** | **Cynnydd erbyn mis Mawrth 2011** |
|---|---|---|---|---|
| **8. Mwy o gymunedau'n elwa o goetiroedd a choed** | a) Adnabod sefydliadau sydd eisoes yn hyrwyddo neu'n cyfrannu at ymgysylltiad cyhoeddus â choetiroedd, gyda'r nod o lenwi unrhyw fylchau. | **CCC** | 1, 3, 9, 10, 11 | Cyfarfod cychwynnol ym mis Chwefror rhwng CCC, CGGC (WCVA) a rhwydwaith coetir cymunedol Llais y Goedwig i adolygu ymdrechion i hyrwyddo ymwneud y cyhoedd â choetiroedd. Mae hyn hefyd yn rhan o waith y timau yn Ardaloedd Adfywio Blaenau'r Cymoedd a Chymoedd y Gorllewin |
| | b) Adolygu a diwygio'r prosesau ymgynghori sy'n berthnasol i goetiroedd, lle bo hynny'n briodol, gan gynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig â rhaglen Coetiroedd Gwell i Gymru ac Ystad Goedwig Llywodraeth Cymru, gyda'r nod o fod yn gynhwysol a rhoi cyfle i bawb gyfrannu. | **CCC** | 1, 3 | Nid yw proses ymgynghori CCC wedi cael ei hadolygu a'i diwygio hyd yma. Rhoddwyd y gorau i'r prosiect i adolygu'r broses ymgynghori ar gyfer CGG (BWW) gan i'r cynllun grant gael ei gau i ymgeiswyr newydd ym mis Rhagfyr 2010 |
| | c) Archwilio'r ystyriaethau cyfreithiol a gweithredol sy'n gysylltiedig â throsglwyddo cyfrifoldebau rheoli coetiroedd i grwpiau a mentrau cymunedol. Ffurfioli dulliau o weithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni amcanion datblygu cymunedol effeithiol, yn enwedig mewn perthynas â Ystad Goedwig Llywodraeth Cymru. | **CCC,** Llais y Goedwig, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru | 1, 9, 10, 11, 16 | Mae Fframwaith Cynnwys y Cyhoedd a Menter Gymdeithasol ar gyfer YGLlC (AGWE) wedi cael ei gynhyrchu gan CCC – caiff ei lansio a'i roi ar waith yn 2011/12 |

6. Tabl o Gamau Gweithredu yn cynnwys themâu, camau gweithredu a'r sefydliadau cyfrifol
**Coetiroedd i Bobl**

| Canlyniad | Cam Gweithredu | Sefydliadau arweiniol gyda'r prif gyrff cefnogi | Canlyniadau ychwanegol a gefnogir | Cynnydd erbyn mis Mawrth 2011 |
|---|---|---|---|---|
| **8. Mwy o gymunedau'n elwa o goetiroedd a choed** | ch) Datblygu, cyhoeddi a hyrwyddo arweiniad i berchenogion a sefydliadau coetiroedd sy'n cydweithio â chymunedau. | **CCC,** Llais y Goedwig, CLILC | 1, 3, 4, 9, 10, 11, 16 | • Cafodd Rhaglen Gorfforaethol CCC ar gynnwys y cyhoedd a menter yn ymwneud â choetiroedd ei chyhoeddi yn 2010.<br>• Mae Llais y Goedwig wedi comisiynu cyfres o astudiaethau achos yn ymwneud â datblygu grwpiau coetir cymunedol. Cyhoeddwyd yr un gyntaf ym mis Mawrth 2011 a bydd rhagor yn dilyn yn 2011/12. http://llaisygoedwig.org.uk/what-we-do/case-studies/<br>• Bydd CCC yn datblygu arweiniad ar gyfer perchenogion coetiroedd a chyrff sy'n gweithio gyda chymunedau yn 2011/12 |
| | d) Datblygu, cyhoeddi a hyrwyddo arweiniad a chymorth i gymunedau a grwpiau eraill, i'w helpu i feithrin cysylltiadau buddiol â choetiroedd a pherchenogion coetiroedd. | **CGGC,** Llais y Goedwig, CCC | 9, 10, 11, 15 | • Cafodd Rhaglen Gorfforaethol CCC ar gynnwys y cyhoedd a menter yn ymwneud â choetiroedd ei chyhoeddi yn 2010.<br>• Lansiodd Llais y Goedwig gyfres o Nodiadau Cynghori ym mis Mawrth 2011 i roi arweiniad a chefnogaeth i gymunedau sydd â diddordeb mewn datblygu coetiroedd. Cyhoeddir rhagor yn 2011/12. http://llaisygoedwig.org.uk/what-we-do/advisory-notes/<br>• Bydd CCC hefyd yn datblygu arweiniad ar gyfer perchenogion coetir eraill yn 2011/12 |

6. Tabl o Gamau Gweithredu yn cynnwys themâu, camau gweithredu a'r sefydliadau cyfrifol
**Coetiroedd i Bobl**

| **Canlyniad** | **Cam Gweithredu** | **Sefydliadau arweiniol** gyda'r prif gyrff cefnogi | **Canlyniadau ychwanegol a gefnogir** | **Cynnydd erbyn mis Mawrth 2011** |
|---|---|---|---|---|
| **8. Mwy o gymunedau'n elwa o goetiroedd a choed** | dd) Helpu i nodi'r ffyrdd gorau i gymunedau gael cyllid ac adnoddau ar gyfer gweithgareddau coetirol, gan roi cymorth a hyrwyddo cyfleoedd. | **CCC,** Partneriaeth Adfywio Strategol | 6, 11, 15, 16 | • Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol ym mis Chwefror 2011 rhwng CCC, CGGC (WCVA) a Llais y Goedwig i ddechrau adolygu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer ymwneud y cyhoedd â choetiroedd.<br>• Mae CCC yn hybu cynnwys cyllid ar gyfer gweithgareddau o'r fath yng Nghynlluniau Datblygu Gwledig 3 a 4 |
| | e) Dechrau dull partneriaeth o reoli coed a choetiroedd fel offeryn ar gyfer adfywio, gan ganolbwyntio ar yr Ardaloedd Adfywio Strategol a defnyddio prosiect Blaenau'r Cymoedd yn brosiect peilot. | **CCC** | 6, 9, 10, 11,16 | Mae cynllun coetiroedd Blaenau'r Cymoedd (BC / HoV) wedi cael ei gwblhau ac mae'r gwaith wedi cael ei estyn i Ardal Adfywio Cymoedd y Gorllewin. Neilltuwyd aelod o staff CCC i'r ddwy ardal i roi arweiniad ar goetiroedd a choed. Yn BC 13 mae Coetiroedd Blaenoriaethol wedi cael eu nodi ac mae'r gwaith o ddatblygu rhaglen waith wedi'i chostio a'i chyllido ar eu cyfer, sydd wedi'i gwreiddio yn y rhaglen BC, wedi dechrau |
| | f) Darparu gwybodaeth am bob agwedd ar ymgysylltiad cyhoeddus â choetiroedd, trwy gyhoeddi a hyrwyddo astudiaethau achos. | **CCC** | 6, 9, 10, 11,16 | • Mae Llais y Goedwig wedi comisiynu cyfres o astudiaethau achos sy'n rhoi gwybodaeth am ymwneud â choetiroedd. http://llaisygoedwig.org.uk/what-we-do/case-studies/<br>• Mae CCC yn datblygu astudiaethau achos hefyd |

6. Tabl o Gamau Gweithredu yn cynnwys themâu, camau gweithredu a'r sefydliadau cyfrifol

**Coetiroedd i Bobl**

| **Canlyniad** | **Cam Gweithredu** | **Sefydliadau arweiniol** gyda'r prif gyrff cefnogi | **Canlyniadau ychwanegol a gefnogir** | **Cynnydd erbyn mis Mawrth 2011** |
|---|---|---|---|---|
| **9. Mwy o bobl yn mwynhau'r manteision y gall coetiroedd a'u cynnyrch eu cynnig o safbwynt dysgu gydol oes** | a) Parhau i annog a chefnogi'r defnydd o goetiroedd fel adnodd dysgu gydol oes, gan amlygu gwerth a manteision coed a choetiroedd ym mywydau pobl o ddydd i ddydd. | **Fforwm Coetiroedd ar gyfer Dysgu,** LIC - DES, CCC | 8, 10, 15 | • Mae'r Fforwm Coetiroedd ar gyfer Dysgu a'r Fenter Addysg Goedwig yn annog ac yn cefnogi'r defnydd o goetiroedd ar gyfer dysgu.<br>• Mae Tîm Coetiroedd ar gyfer Dysgu CCC yn cynnig profiadau hyfforddiant athrawon i dynnu sylw at fuddion coetiroedd a'u cynhyrchion ym mywydau pob dydd pobl. Mae gweithgareddau eleni wedi cynnwys cynhyrchu a rhagbrofi Pecyn Newid Hinsawdd CA2 a rhaglenni gyda myfyrwyr anghenion arbennig i'w cyflwyno i fyd gwaith |

6. Tabl o Gamau Gweithredu yn cynnwys themâu, camau gweithredu a'r sefydliadau cyfrifol
**Coetiroedd i Bobl**

| **Canlyniad** | **Cam Gweithredu** | **Sefydliadau arweiniol** gyda'r prif gyrff cefnogi | **Canlyniadau ychwanegol a gefnogir** | **Cynnydd erbyn mis Mawrth 2011** |
|---|---|---|---|---|
| Mae camau gweithredu pellach yn yr adran Sector Coedwigoedd Integredig dan ganlyniad 15 'Gweithlu medrus, llwyddiannus yn y sector coedwigaeth' | b) Parhau i ddatblygu Ysgol y Goedwig fel dull cyflwyno, gan gynnwys, er enghraifft, rhaglenni ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, Llwybrau Dysgu 14-19, oedolion a chwarae; a darparu hyfforddiant, datblygiad proffesiynol parhaus a chyfleoedd rhwydweithio i ymarferwyr. | **CCC,** FSW, FEI, SABau | 8, 10, 15 | • Mae'r Ysgol Goedwig yn parhau i dyfu o ran darpariaeth a hyfforddiant. Mae prosiect Hyfforddi'r Hyfforddwr Lefel 4 a gyllidir gan CCC, sy'n canolbwyntio ar gyflwyno darpariaeth ac asesu drwy gyfrwng y Gymraeg, wedi dechrau, ac mae cyrsiau ar Lefelau 1 i 3 yn cael eu cynnal ar hyd a lled Cymru.<br>• Dathlodd cynhadledd Coetiroedd ar gyfer Dysgu 2010/11 10 mlynedd o Ysgol Goedwig yng Nghymru.<br>• Cynhaliodd CCC arolwg o Arweinwyr Ysgol Goedwig yng Nghymru i ddarganfod dosbarthiad presennol Arweinwyr Ysgol Goedwig hyfforddedig gweithgar, sy'n gweithio'n annibynnol ac mewn ysgolion ar draws Cymru, gan nodi'r ffactorau allweddol ar gyfer llwyddiant, rhwystrau i gyflawni, a bylchau mewn darpariaeth. Bydd yr argymhellion yn cael eu gweithredu yn ystod 2011/12 |
| | c) Amlygu'r cyfleoedd lleol a chenedlaethol y mae coetiroedd yn eu cynnig ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19. | **CCC,** LIC - DES, Partneriaethau Llwybrau Dysgu 14-19 | 8, 15 | Drwy'r Fforwm Coetiroedd ar gyfer Dysgu rydym yn llwyddo i ddod o hyd i Gydlynwyr lleol ar gyfer y Llwybr 14-19. Tynnir sylw at waith yn y maes hwn yn Rhaglen Gorfforaethol (6) CCC 'Dysgu seiliedig ar Goetiroedd a Sgiliau Sector' a gaiff ei chyflawni yn ystod 2011/12 |

6. Tabl o Gamau Gweithredu yn cynnwys themâu, camau gweithredu a'r sefydliadau cyfrifol
**Coetiroedd i Bobl**

| **Canlyniad** | **Cam Gweithredu** | **Sefydliadau arweiniol** gyda'r prif gyrff cefnogi | **Canlyniadau ychwanegol a gefnogir** | **Cynnydd erbyn mis Mawrth 2011** |
|---|---|---|---|---|
| | ch) Cydweithio â'r diwydiant coedwigoedd yng Nghymru i ddarparu cyfleoedd profiad gwaith a llwybrau i gyflogaeth, ar draws ystod sgiliau'r sector. | **WFBP**, Lantra, CCC, SABau | 8, 11, 15 | Mae CCC wedi datblygu Fframwaith Profiad Gwaith a bydd yn cynnal peilot yn ystod 2011/12 |
| | d) Alinio llwybrau dysgu a hyfforddiant coetiroedd, gyda'r nod o sicrhau y caiff gweithgareddau newydd a phresennol eu hachredu ac y gallant integreiddio yn Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, lle bo hynny'n briodol. | **CCC,** LIC - DES, WFBP | 8, 11, 15 | Mae CCC yn parhau i hwyluso'r Rhwydwaith Hyfforddi Ysgol Goedwig a gwaith gydag Agored Cymru mewn perthynas â chymwysterau Ysgol Goedwig a Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru |
| | dd) Datblygu prosiectau peilot sy'n archwilio sut y gellir defnyddio coetiroedd fel adnodd chwarae gwerthfawr. | **CCC,** Chwarae Cymru | 6, 8, 10 | Mae prosiect chwarae wedi cael ei ddatblygu gan CCC yn Ne Cymru gyda gr p meithrin ac fe'i cynhelir yn ystod 2011/12. Defnyddir Graddfa Ymwneud Plant yr Athro Ferre Laever i'w asesu |
| | e) Hyrwyddo ac ymestyn y cyfleoedd i wirfoddolwyr mewn coetiroedd. | **CLILC,** CCC | 1, 8, 9, 10 | Mae CCC wedi dechrau datblygu polisi gwirfoddoli newydd a gaiff ei gwblhau yn 2012 |

6. Tabl o Gamau Gweithredu yn cynnwys themâu, camau gweithredu a'r sefydliadau cyfrifol
**Coetiroedd i Bobl**

| Canlyniad | Cam Gweithredu | Sefydliadau arweiniol gyda'r prif gyrff cefnogi | Canlyniadau ychwanegol a gefnogir | Cynnydd erbyn mis Mawrth 2011 |
|---|---|---|---|---|
| **10. Mwy o bobl yn byw bywydau iach o ganlyniad i'w defnydd a'u mwynhad o goetiroedd** | a) Darparu, datblygu a hyrwyddo mynediad i goetiroedd wedi'i dargedu a'i reoli'n dda ledled Cymru; darparu a datblygu isadeiledd (megis llwybrau) a chyfleusterau addas mewn coetiroedd sy'n teimlo'n ddiogel ac yn llawn croeso. Cyhoeddi canllawiau arfer da a chynnwys cymunedau a grwpiau lleol, lle bynnag y bo'n briodol. | **CCC, CCGC, WT,** CLlLC | 1, 3, 6, 8, 9, 16 | • Mae Rhaglen Gorfforaethol Hamdden a Mynediad CCC a pholisi LlC ar Fuddion lechyd a Lles Coetiroedd a Choed Cymru (2010) http://www.forestry.gov.uk/pdf/Health&wellbeing.pdf/$FILE/Health&wellbeing.pdf yn rhoi sylw i'r nodau ar gyfer mynediad i goetiroedd.<br>• Bydd gwaith yn Ardaloedd Adfywio Blaenau'r Cymoedd a Chymoedd y Gorllewin yn rhoi'r rhain ar waith yn y coetiroedd blaenoriaethol peilot yn Ebwy Fach a Llanwynno |
| | b) Cydweithio â Fforymau Mynediad Lleol i helpu i gyflwyno Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy. | **CCGC,** CCC, CLlLC | 6, 8 | Rhoddwyd ar waith gyda chymorth Rhaglen Gyllido'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP). Mae hyn yn parhau ac ymgymerir â gwaith mewn coetiroedd fel y bo'n briodol |
| | c) Datblygu sail dystiolaeth gadarn er mwyn galluogi targedu gofodol o fynediad cyhoeddus i goetiroedd ac ymgysylltiad cyhoeddus â choetiroedd. | **CCC** | 6, 8 | Cafodd cynllun coetir Blaenau'r Cymoedd ei gwblhau yn 2010 gan ddefnyddio erfyn dadansoddi i flaenoriaethu coetiroedd yn ôl eu gwerth cymdeithasol ac economaidd. Defnyddir hyn i dargedu adnoddau ac i ddatblygu cynllun coetir yn Ardal Adfywio Cymoedd y Gorllewin yn 2011/12 |
| | ch | | 8, 9, 19 | Adrodd yn ôl erbyn diwedd Mawrth 2012 |

6. Tabl o Gamau Gweithredu yn cynnwys themâu, camau gweithredu a'r sefydliadau cyfrifol
**Coetiroedd i Bobl**

| **Canlyniad** | **Cam Gweithredu** | **Sefydliadau arweiniol** gyda'r prif gyrff cefnogi | **Canlyniadau ychwanegol a gefnogir** | **Cynnydd erbyn mis Mawrth 2011** |
|---|---|---|---|---|
| | d) Adolygu a gwella'r gwaith o hyrwyddo a marchnata'r cyfleoedd mynediad a hamdden y gall coetiroedd yng Nghymru eu cynnig. | **CCC** | 8, 13 | Sefydlwyd Fforwm Iechyd Awyr Agored ym mis Chwefror 2011 gan CCC, Cyngor Chwaraeon Cymru, AAC, LIC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyflawni nodau Creu Cymru Egnïol (cynllun gweithredu gweithgaredd corfforol LIC) http://wales.gov.uk/topics/cultureandsport/sportandactiverecreation/active/?lang=en |
| | dd) Hyrwyddo'r defnydd o goetiroedd at ddibenion iechyd a lles trwy gyfrannu at y rhwydweithiau priodol, gan gynnwys ystod eang o sefydliadau yn y sector statudol a'r trydydd sector. | **CCC, LIC - Iechyd Cyhoeddus Cymru,** Sefydliad Iechyd Gwledig | 8, 13 | • Mae Fframwaith Cynnwys y Cyhoedd a Menter Gymdeithasol ar gyfer YGLIC (AGWE) wedi cael ei ddatblygu bellach a chaiff ei lansio a'i roi ar waith yn 2011/12.<br>• Mae fframwaith ar gyfer mentrau masnachol ar YGLIC yn cael ei ddatblygu.<br>• Bydd CCC yn cynhyrchu arweiniad ar gyfleoedd menter sy'n gysylltiedig â choetiroedd yn 2011/12 |
| **11. Mwy o bobl yn elwa o ganlyniad i fentrau sy'n gysylltiedig â choetiroedd** | a) Hyrwyddo a darparu cymorth ac arweiniad i gyfleoedd menter sy'n gysylltiedig â choetiroedd, er enghraifft twristiaeth a chynhyrchion coedwigoedd nad ydynt yn goed. | **CCC** | 8, 13 | Datblygu a gweithredu arweiniad yn 2011/12 ar ôl cyhoeddi rhaglen gorfforaethol CCC ar gyfer ymgysylltiad a menter gyhoeddus |

6. Tabl o Gamau Gweithredu yn cynnwys themâu, camau gweithredu a'r sefydliadau cyfrifol

**Sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig**

| Canlyniad | Cam Gweithredu | Sefydliadau arweiniol gyda'r prif gyrff cefnogi | Canlyniadau ychwanegol a gefnogir | Cynnydd erbyn mis Mawrth 2011 |
|---|---|---|---|---|
| **12. Mwy o goed wedi'u tyfu yng Nghymru yn cael eu defnyddio yng Nghymru** | a) Yn 2011, cyhoeddi rhagolygon cynhyrchu 5 mlynedd y sector cyhoeddus a phreifat, gan ddarparu gwybodaeth sylfaenol am lefelau cynhyrchu coed yn y dyfodol o goetiroedd yng Nghymru. | **FCGB, Grŵp Rhagweld Cynhyrchiant y Sector Preifat** (PSPFG) | 13 | Cyhoeddir y rhagolwg cynhyrchu ym mis Tachwedd 2011 |
| | b) Datblygu modelau tyfu coed gwell a modelau economaidd gwell i fesur effaith arferion coedamaeth newidiol ar gyflenwadau pren yn y dyfodol. Defnyddio'r wybodaeth hon i helpu i ddatblygu rhaglenni a fydd yn cynnal cynhyrchu pren ar raddfa genedlaethol yn yr hirdymor, ac ar y lefelau presennol ar gyfer Ystad Goedwig Llywodraeth Cymru yn y tymor byr i ganolig. | **FR, CCC** | 1, 2, 3, 13 | Cyhoeddodd CCC arweiniad ar gynyddu'r amrywiaeth o rywogaethau coed ym mis Hydref 2010 a ddosbarthwyd yn fewnol ymhlith staff CCC a'r sector coedwigaeth ehangach drwy gyfrwng gweithdai a drefnwyd gan Bartneriaeth Busnes Coedwig Cymru (WFBP) http://www.welshtimberforum.co.uk/ a ConFor www.confor.org.uk/<br>Arweiniad ar rywogaethau o goed: http://www.forestry.gov.uk/pdf/SpeciesGuidance_Glastirpage20101021.pdf/$FILE/SpeciesGuidance_Glastirpage20101021.pdf |
| | c) Datblygu, cyhoeddi a hyrwyddo arweiniad i dyfwyr a phroseswyr ar briodweddau coed y rhywogaethau coed a fydd yn (neu'n sy'n debygol o) ffurfio coetiroedd Cymru yn y dyfodol, i'w helpu i wneud penderfyniadau buddsoddi gwybodus. | **CCC, FR,** WFBP | 2, 3, 14 | Yn 2010/11 dechreuodd Ymchwil Coedwig gasglu gwybodaeth am ansawdd coed a phriodweddau gwahanol rywogaethau o goed. Cwblhawyd hyn bellach ar gyfer sbriws Sitka a phinwydd.<br>http://www.forestry.gov.uk/pdf/fcrn005.pdf/$FILE/fcrn005.pdf Bydd gwybodaeth am rywogaethau eraill yn parhau i gael ei chasglu yn 2011/12 |

6. Tabl o Gamau Gweithredu yn cynnwys themâu, camau gweithredu a'r sefydliadau cyfrifol

**Sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig**

| **Canlyniad** | **Cam Gweithredu** | **Sefydliadau arweiniol** gyda'r prif gyrff cefnogi | **Canlyniadau ychwanegol a gefnogir** | **Cynnydd erbyn mis Mawrth 2011** |
|---|---|---|---|---|
| **12. Mwy o goed wedi'u tyfu yng Nghymru yn cael eu defnyddio yng Nghymru** | ch) Sefydlu rhwydwaith o brosiectau ymchwil ac arddangosiadau ymarferol i roi gwybodaeth am dechnegau rheoli coedwigoedd, ansawdd cynnyrch a datblygu cynnyrch. | **WFBP, FR** | 2, 3, 14 | • Rhoddir adroddiad llawn ar gynnydd yn 2013/14<br>• Yn ystod 2010/11, ar y cyd ag eraill, trefnwyd a chynhaliwyd Gweithdai ar Amrywiaeth Rhywogaethau gan Bartneriaeth Busnes Coedwig Cymru<br>• Trefnodd WFBP weithdai 'Pontio'r Bwlch' hefyd, gan gynnal Seminarau Cladin Pren a gwerthusiad o adeiladau pren - gan fynd ati i ymchwilio i gyfleoedd i ddefnyddio mwy o bren lleol ym maes adeiladu |

6. Tabl o Gamau Gweithredu yn cynnwys themâu, camau gweithredu a'r sefydliadau cyfrifol

**Sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig**

| **Canlyniad** | **Cam Gweithredu** | **Sefydliadau arweiniol** gyda'r prif gyrff cefnogi | **Canlyniadau ychwanegol a gefnogir** | **Cynnydd erbyn mis Mawrth 2011** |
|---|---|---|---|---|
| **13. Y sector coedwigaeth wedi'i integreiddio'n well, yn fwy cystadleuol ac yn cefnogi economi Cymru** | a) Cyhoeddi, hyrwyddo a chynnal rhestr o'r ffynonellau presennol o gymorth ariannol ar gyfer mentrau coedwigaeth ar bob lefel; nodi unrhyw fylchau yn y cymorth ariannol presennol a cheisio cyllid ychwanegol i lenwi'r rhain. | **WFBP** | 8, 11, 12, 14 | Mae hyn wedi cael ei ohirio oherwydd newidiadau yn y ffrydiau cyllido; bu Partneriaeth Busnes Coedwig Cymru yn helpu i ddatblygu Glastir ac mae CCC yn gweithio gyda LlC ar ddefnyddio Echelin 1 ac Echelin 2 o'r Cynllun Datblygu Gwledig yn y dyfodol |
| | b) Cynorthwyo sefydliadau sy'n annog cyfleoedd rhwydweithio yn y sector coedwigaeth. | **LlC - Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol** | 7, 8, 11, 13, 14, 15 | • Yn parhau, gyda chyfleoedd rhwydweithio a digwyddiadau wedi'u harwain gan Bartneriaeth Busnes Coedwig Cymru ac eraill<br>• Cafodd y Ganolfan Goedwigaeth ym Machynlleth ei hagor yn yr Hydref 2010, i feithrin cysylltiadau nes rhwng y sector coedwig traddodiadol a'r 3ydd sector. Rhennir swyddfeydd a gwasanaethau yma gan gyrff cyhoeddus, preifat a 3ydd sector |

6. Tabl o Gamau Gweithredu yn cynnwys themâu, camau gweithredu a'r sefydliadau cyfrifol

**Sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig**

| **Canlyniad** | **Cam Gweithredu** | **Sefydliadau arweiniol** gyda'r prif gyrff cefnogi | **Canlyniadau ychwanegol a gefnogir** | **Cynnydd erbyn mis Mawrth 2011** |
|---|---|---|---|---|
| Gellir gweld cyfleoedd i fentrau yn yr adran 'Coetiroedd i Bobl' hefyd. | c) Nodi arfer gorau presennol ac adeiladu ar brofiad i ddatblygu modelau ar gyfer mentrau sy'n gysylltiedig â choetiroedd, gan gynnwys mentrau cymdeithasol; cyhoeddi a hyrwyddo astudiaethau achos sy'n dangos arfer gorau a'r hyn a ddysgwyd. | **WFBP,** CCC, Coed Cymru | 7, 8, 11, 13, 14, 15 | • Yn parhau; cynhyrchodd Partneriaeth Busnes Coedwig Cymru y daflen 'Timber Cladding in Wales' http://www.forestry.gov.uk/pdf/fcrn005.pdf/$FILE/fcrn005.pdf a'r newyddlen 'Byw a Gweithio gyda Choed' yn ystod 2010/11.<br>• Mae Tanwydd Coed Cymru wedi gwneud llawer o waith ar baratoi ei Safon Sicrhau Ansawdd Tanwydd ar gyfer ei chyhoeddi. Rhoddwyd prawf ar y Safon yn yr Haf 2010 |
| | ch) Cyhoeddi a chyflwyno Cynllun Gweithredu Cadwyn Gyflenwi ar gyfer cynhyrchion coetiroedd. | **CCC,** WFBP | 8, 12, 14 | • Cyhoeddir y Cynllun Gweithredu Cadwyn Gyflenwi yn 2012<br>• Mae Woodfuel Wales wedi symud ymlaen cryn dipyn gyda chyhoeddi eu Safon Sicrhau Ansawdd Tanwydd a brofwyd yn Haf 2010 |

6. Tabl o Gamau Gweithredu yn cynnwys themâu, camau gweithredu a'r sefydliadau cyfrifol

**Sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig**

| **Canlyniad** | **Cam Gweithredu** | **Sefydliadau arweiniol** gyda'r prif gyrff cefnogi | **Canlyniadau ychwanegol a gefnogir** | **Cynnydd erbyn mis Mawrth 2011** |
|---|---|---|---|---|
| **14. Mwy o ddefnydd o goed fel adnodd adnewyddadwy** *i* | a) Datblygu, cyhoeddi a hyrwyddo arweiniad i'r rheiny sy'n llunio polisïau, cynllunwyr, penseiri a defnyddwyr olaf ar fanteision coed, er mwyn helpu i symbylu galw'r farchnad am gynhyrchion coed. | **WFBP** | 7, 12, 13 | • Bydd adroddiad prosiect ymchwil CC Prydain Fawr, 'Wood Footprinter Methodology Toolkit', yn cael ei gyflwyno yn 2011. Cafodd gweithdy Gwybodaeth Coed Cymru ei gynnal ym mis Mawrth 2011 i gasglu barn am gynnwys y pecyn offer a'i ddefnydd a bydd yn cyfrannu at yr adroddiad terfynol. http://www.woodfootprint.co.uk/<br>• Caiff arolwg o gadwyn gyflenwi pren meddwl ei gynnal a'i gwblhau erbyn haf 2011 yn edrych ar y cyfleoedd i'r defnyddwyr terfynol ddod o hyd i fwy o bren lleol |
| | b) Datblygu, cyhoeddi a hyrwyddo arweiniad ar gaffaeliad gan gyrff y sector cyhoeddus, er mwyn helpu i gynyddu'r defnydd o gynhyrchion coed. | **WFBP** | 7, 12, 13 | I'w gyhoeddi erbyn diwedd Mawrth 2011 |
| | c) Darparu cyfleoedd i arddangos cynhyrchion pren a choed, er mwyn annog eu defnydd ehangach. | **WFBP** | 7, 12, 13 | Ar waith, adrodd yn ôl erbyn diwedd Mawrth 2011 |
| | ch) Datblygu'r cais ar gyfer CONSTRUCT. | **CCC** | 7, 12, 13 | Ar waith, cyflwynwyd cais y cam 1af; cais yr 2il gam i'w gyflwyno yn 2011 |

6. Tabl o Gamau Gweithredu yn cynnwys themâu, camau gweithredu a'r sefydliadau cyfrifol

**Sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig**

| **Canlyniad** | **Cam Gweithredu** | **Sefydliadau arweiniol** gyda'r prif gyrff cefnogi | **Canlyniadau ychwanegol a gefnogir** | **Cynnydd erbyn mis Mawrth 2011** |
|---|---|---|---|---|
| **15. Gweithlu medrus, llwyddiannus yn y sector coedwigaeth** | a) Sicrhau bod deunyddiau a gweithgareddau dysgu yn esbonio pwysigrwydd rheoli coetiroedd yn weithredol, a defnyddio coed fel adnodd adnewyddadwy gwerthfawr a all helpu i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd trwy ddal a storio carbon a'i amnewid. Dylai deunyddiau dysgu bwysleisio'r angen i ddefnyddio coed yn gall ac ystyried argaeledd coed o farchnadoedd Cymru a marchnadoedd byd-eang yn y dyfodol. | **Tîm Coetiroedd ar gyfer Dysgu CCC,** SABau, WFBP | 1, 7, 8, 9, 12, 13, 14, 16 | Ar waith, adolygu deunyddiau dysgu yn ystod 2010/11 er mwyn sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yn narpariaeth CCC; annog eraill i'w defnyddio trwy Fforwm Coetiroedd ar gyfer Dysgu |
| Gellir gweld cyfleoedd ar gyfer dysgu a hyfforddiant yn yr adran 'Coetiroedd i Bobl' hefyd. | b) Asesu'r sgiliau sydd eu hangen ar bob lefel o'r sector, ac argaeledd addysg a hyfforddiant priodol. Lle mae bylchau, cydweithio ag eraill i ddatblygu cyfleoedd hyfforddiant achrededig. | **CCC, LIC - DES, Lantra** WFBP | 8, 9, 11 | Ar waith, gydag adolygiad cychwynnol i'w gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2012 |
| | c) Adolygu, datblygu a hyrwyddo cynlluniau hyblyg ar gyfer prentisiaethau, lleoliadau gwaith a llwybrau dysgu coetiroedd achrededig yn y sector. | **CCC, LIC - DES, Lantra** | 8, 9, 11 | Ar waith |

6. Tabl o Gamau Gweithredu yn cynnwys themâu, camau gweithredu a'r sefydliadau cyfrifol

**Sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig**

| **Canlyniad** | **Cam Gweithredu** | **Sefydliadau arweiniol** gyda'r prif gyrff cefnogi | **Canlyniadau ychwanegol a gefnogir** | **Cynnydd erbyn mis Mawrth 2011** |
|---|---|---|---|---|
| **16. Rheoli Coetir sy'n cyflawni'r safonau uchaf o stiwardiaeth amgylcheddol** | a) Cynorthwyo i reoli a lleihau effaith trosedd bywyd gwyllt a difrod troseddol ar goetiroedd a'u bioamrwiaeth, drwy ddatblygu ymagwedd ar y cyd at y problemau hyn fel rhan o'r cytundeb partneriaeth rhwng CCGC a CCC. | **CCGC, CCC** | 1, 2, 3 | Ar waith, gydag adnewyddu blynyddol ar y cytundeb rhwng CCGC a CCC |
| Ymdrinnir â chamau gweithredu ar wybodaeth a chyngor, Safon Coedwig y DU ac ymagweddau i fynd i'r afael â bygythiadau gan rywogaethau ymledol anfrodorol o dan y thema coetiroedd a choed Cymru. | b) Gweithio gyda chyrff cyhoeddus a thrydydd sector i ddatblygu canllawiau i reolwyr coetiroedd i'w cynorthwyo i reoli a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, gweithagreddau troseddol a niwsansau amgylcheddol fel tipio anghyfreithlon a thresmasu gan gerbydau mewn coetiroedd. Datblygu prosiectau peilot, archwilio addysg ac atal fel dulliau amgen o reoli'r problemau hyn. | **LIC - Cyswllt â'r Heddlu, Taclo Tipio Cymru, CCC** | 1, 2, 3 | Ar waith, adroddiad cychwynnol ar brosiectau peilot erbyn diwedd Mawrth 2014 |
| | c) Gweithio gyda phartneriaid i safonau amgylcheddol rheolaeth coetir. | **CCC,** CCGC, AAC, Cadw, WFBP, FCA | 1, 2, 3 | Ar waith |

6. Tabl o Gamau Gweithredu yn cynnwys themâu, camau gweithredu a'r sefydliadau cyfrifol
**Ansawdd yr Amgylchedd**

| Canlyniad | Cam Gweithredu | **Sefydliadau arweiniol** gyda'r prif gyrff cefnogi | **Canlyniadau ychwanegol a gefnogir** | **Cynnydd erbyn mis Mawrth 2011** |
|---|---|---|---|---|
| **17. Mae coetiroedd a choed o werth cadwraethol arbennig dan reolaeth ffafriol** | a) Gweithredu'r cyfrifoldebau mewn perthynas â choetiroedd yn ôl diffiniad Fframwaith Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru. | **Grŵp Ecosystemau Coetir PBC** | 18 | Ar waith, monitrir drwy System Adrodd ar Gamau Gweithredu Bioamrywiaeth (BARS) |
| | b) Dod â safleoedd dynodedig o dan reolaeth ffafriol, cefnogi rheolwyr coetiroedd i weithredu'r camau fel y'u diffinir ar Gronfa Ddata Camau Gweithredu Safleoedd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. | **Gweithgor Canlyniad 21 Strategaeth Amgylchedd,** CCGC | 18 | Ar waith, monitrir drwy Gronfa Ddata Camau Gweithredu Safleoedd dan reolaeth CCGC |
| | c) Ymestyn i Gymru gyfan y peilot llwyddiannus i adolygu'r rhestr Coetiroedd Hynafol; hyrwyddo a rhoi sylw i'r rhestr wedi'i hadolygu a'i defnyddio hi. | **CCC a CCGC** | 18 | Yn dilyn peilot llwyddiannus yn 2009, y prosiect yn cael ei symud ymlaen yn 2010/11 |
| | ch) Adolygu mesurau amddiffyn coed sydd yn bod, gan gynnwys y rhai a geir ym Mholisi Cynllunio Cymru; nodi mecanweithiau i fonitro a rheoli coed unigol o werth gan gynnwys hen goed, coed strydoedd a gwrychoedd, coed mewn parciau a choed prin; cyhoeddi a hyrwyddo'r polisi a'r canllawiau newydd. | **LIC, Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, CLILC,** CCC, CCGC, Coed Cadw | 2, 3,17 | Canllawiau i'w hadolygu a'u cynnwys mewn dogfennau polisi cyfredol, megis TANau, pan adolygir y rhain, ac adrodd yn ôl ddiwedd Mawrth 2014 |
| | d) Cynllunio, a blaenoriaethu a gweithredu fel bo'n briodol adferiad PAWS ar Ystad Goedwig Llywodraeth Cymru ac annog adfer PAWS yn y sector preifat gyda chefnogaeth cynllun grantiau Coetiroedd Gwell i Gymru. | **CCC,** Grŵp Ecosystemau Coetiroedd PBC (yn achos coetiroedd preifat) | 1,18, 19 | Ar waith, yn anelu at gwblhau cynllunio a blaenoriaethu yn Ystad Goedwig Llywodraeth Cymru erbyn diwedd Mawrth 2011 |

6. Tabl o Gamau Gweithredu yn cynnwys themâu, camau gweithredu a'r sefydliadau cyfrifol
**Ansawdd yr Amgylchedd**

| Canlyniad | Cam Gweithredu | Sefydliadau arweiniol gyda'r prif gyrff cefnogi | Canlyniadau ychwanegol a gefnogir | Cynnydd erbyn mis Mawrth 2011 |
|---|---|---|---|---|
| **18. Mae bioamrywiaeth coetiroedd yn cael ei gefnogi ac mae coetir brodorol dan reolaeth ffafriol** | a) Gweithio at dargedau Cynllun Gweithredu Cynefin coetir brodorol (ar gyfer cyflwr, maint, adferiad, trosi ac ehangu) ar Ystad Goedwig Llywodraeth Cymru; ac annog perchenogion a rheolwyr coetiroedd eraill i wneud yr un peth. | **Grŵp Ecosystemau PBC,** grŵp UKNWHAP | 1, 2, 16, 17 | Ar waith, monitrir drwy BARS |
| Trafodir camau gweithredu i droi coetiroedd i gyflwr mwy naturiol o dan thema coetiroedd a choed Cymru; | b) Nodi ardaloedd lle dylid tynnu coetir yn barhaol at ddiben adfer cynefin â blaenoriaeth, os bydd y cynefin agored yn rhoi budd amgylcheddol mwy na'r coetir. Cynllunio a blaenoriaethu adfer cynefinoedd a rheoli'r ardaloedd hyn, oddi mewn i Ystad Goedwig Llywodraeth Cymru. | **Grwpiau Ecosystemau PBC** | 3,17 | Ar waith, gydag adrodd ar y cynnydd erbyn diwedd Mawrth 2014 |
| | c) Adolygu, cynllunio a blaenoriaethu rhaglen wedi'i thargedu ar gyfer atal colli rhywogaethau coetir a warchodir ac sydd â blaenoriaeth sydd ar restr rhywogaethau â blaenoriaeth Adran 42 ac annog ei rhoi ar waith. | **Grŵp Ecosystemau Coetiroedd PBC** | 2, 3, 16, 17 | Ar waith, gyda'r rhaglen wedi'ii datblygu erbyn diwedd Mawrth 2014 |
| | ch) Nodi cyfleoedd addas i wella cysylltiadedd cynefinoedd rhwng coetiroedd ac ynddynt a chynefinoedd eraill ar draws Cymru, gan roi ystyriaeth i ymdrechion cadwraeth ar gyfer rhywogaethau coetir â blaenoriaeth Adran 42; a chynllunio ac annog ailgysylltu'r ardaloedd hyn yn y dyfodol, gyda chefnogaeth gan raglenni grantiau perthnasol. | **Grŵp Ecosystemau Coetiroedd PBC** | 2, 3, 17 | Ar waith, gydag adrodd ar y cynnydd erbyn diwedd Mawrth 2014 |
| **19. Mae Coetiroedd a choed yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad tirwedd arbennig Cymru ac i safleoedd o bwysigrwydd o ran treftadaeth a diwylliant** | a) Adolygu a gwella'r mecanweithiau presennol ar gyfer asesu'r cyfraniad a wneir i gymeriad ac ansawdd tirwedd yng Nghymru gan natur a chymeriad coetiroedd a choed; adolygu a gwella'r broses o gymhwyso'r asesiadau at benderfyniadau defnydd tir, gan gynnwys pendefyniadau ar dirweddau hanesyddol, creu coetir newydd ac adfer cynefinoedd agored. | **Cadw, CCGC,** CCC, Ymddiriedolaethau Archeolegol | 5, 8, 9, 17, 18, 19 | Adrodd ar y cynnydd erbyn diwedd Mawrth 2014 |

6. Tabl o Gamau Gweithredu yn cynnwys themâu, camau gweithredu a'r sefydliadau cyfrifol
**Ansawdd yr Amgylchedd**

| **Canlyniad** | **Cam Gweithredu** | **Sefydliadau arweiniol** gyda'r prif gyrff cefnogi | **Canlyniadau ychwanegol a gefnogir** | **Cynnydd erbyn mis Mawrth 2011** |
|---|---|---|---|---|
| Mae gweithredu i wella ymwneud a mynediad gan y cyhoedd o dan yr adran Coetiroedd i Bobl. Ymdrinnir â'r defnydd pensaernïol ar bren o dan yr adran Coedwig Gystadleuol ac Intregredig. | b) Adolygu a gwella'r mecanweithiau presennol i amddiffyn a rheoli safleoedd archeolegol mewn coetiroedd yn ogystal â gwerth hanesyddol a threftadaeth y coetiroedd a'r coed eu hunain. | **CCC, Cadw** | 3, 8, 18 | Adolygiad ar waith, adrodd ar y cynnydd erbyn diwedd Mawrth 2014 |
| **20. Mae coed a choetiroedd newydd a phresennol yn cyfrannu at reoli dŵr a phridd** *i* | a) Sicrhau bod canllawiau rheoli coetiroedd yn rhoi ystyriaeth i'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a Chynllun Gweithredu Pridd Llywodraeth Cymru, adolygu Canllawiau Pridd a Dŵr FCGB i fynd gyda UKFS. | **FCGB, CCC, AAC,** CCGC, LlC - DRA, LlC - SEED | 3, 5, 16 | Ar waith, gydag adrodd ar y cynnydd erbyn diwedd Mawrth 2014. Canllawiau Pridd a Dŵr FCGB wedi'u hadolygu i'w cyhoeddi erbyn dechrau 2011 |
| Mae camau gweithredu i ddatblygu taliadau am wasanaethau y gall coetiroedd eu darparu ar gyfer rheoli llygredd tryledol, priddoedd a dŵr o dan yr adran Coetiroedd a Choed Cymru. | b) Casglu gwybodaeth sylfaenol ac adeiladu ar ymchwil sy'n bod i sefydlu ystod o safleoedd arddangos i amlygu effeithiau gwirioneddol coetiroedd ar lefel dalgylch. | **FR, FCGB, AAC,** CCC, Canolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru | 3, 4, 5 | Ar waith |
| | c) Hysbysu'r targedu ar greu coetir newydd, ymgymryd â dadansoddiad gofodol i arddangos lle byddai coetiroedd a choed yn rhoi buddion i reoli pridd a dŵr (e.e. lleihau perygl llifogydd a llygredd tryledol). *i* | **FR, CCC, AAC,** CEH, CCGC | 3, 4, 5 | Ar waith |

Atodiad 1

**Canlyniadau Strategaeth yr Amgylchedd mae Coetiroedd i Gymru yn helpu i'w cyflawni**

| Rhif | Canlyniadau |
|---|---|
| **7** | Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru, yn gyson â Chymru yn cyfrannu'n llawn at gwrdd â thargedau'r DU gyfan ac yn unol â thargedau mwy penodol i Gymru sydd wrthi'n cael eu datblygu. |
| **8** | Bod gan Gymru wytnwch gwell yn erbyn effeithiau newid yn yr hinsawdd. Bod rhaglen hyblyg glir o fesurau yn ei lle i alluogi i Gymru ymateb i newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo. |
| **16** | Rheolir pridd i warchod ei allu i gynnal planhigion ac anifeiliaid, storio carbon a darparu gwasanaethau ecosystemau pwysig eraill. |
| **18** | Uchafsymio'r defnydd ar ddeunyddiau amgen, agregau eilaidd ac agregau wedi'u hailgylchu pan fo'n bosibl yn y diwydiant adeiladu. |
| **19** | Atal colli bioamrywiaeth a gallwn weld adferiad pendant yn nifer, ystod ac amrywiaeth enetaidd y bywyd gwyllt, gan gynnwys y rhywogaethau hynny sydd angen amodau penodol iawn i oroesi. |
| **20** | Bod yr amgylchedd ehangach yn fwy ffafriol i fioamrywiaeth drwy reolaeth briodol, llai o chwalu cynefinoedd a chynyddu maint a rhyng-gysylltiadedd cynefinoedd. |
| **21** | Bod safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, Cymreig a lleol mewn cyflwr ffafriol i gefnogi'r rhywogaethau a'r cynefinoedd maent wedi cael eu nodi ar eu cyfer. |
| **23** | Bod ansawdd ac amrywiaeth cymeriad naturiol a hanesyddol ein tirwedd a'n morlun yn cael eu cynnal a'u gwella. |
| **27** | Bod mynediad hawdd a theg at ddigon o fan gwyrdd o ansawdd uchel. |
| **29** | Bod mynediad cynaliadwy, helaeth a theg at gefn gwlad a'r arfordir, sy'n cydnabod yr angen am gytbwysedd rhwng ardaloedd tawel sy'n cynnal niferoedd mwy o bobl mewn ystod o weithgareddau. Anogir yn erbyn difrodi mynediad. |
| **35** | Bod ansawdd ein dŵr daear, afonydd, llynnoedd a dyfroedd ein harfordir yn cael ei gynnal a'i wella. |
| **36** | Bod llygredd gwasgaredig yn cael ei ddeall yn well a bod camau yn cael eu cymryd i leihau a rheoli llygredd gwasgaredig. |

## Atodiad 2:

**Byrfoddau a geirfa**

| | |
|---|---|
| **Addasiad** | Mesurau at leihau bod yn agored i niwed oherwydd newid yn yr hinsawdd, e.e. bod yn fwy parod ar gyfer plâu a gwyntoedd, creu rhwydweithiau coetiroedd, defnyddio coetiroedd ar gyfer rheoli llifogydd. |
| **Amnewidiad** | Y defnydd ar ddeunyddiau, fel cynhyrchion coetir, yn lle (yn yr achos hwn) cynhyrchion eraill sy'n tarddu o danwyddau ffosil neu'n defnyddio tanwyddau ffosil i gael eu cynhyrchu. |
| **Ardaloedd Adfywio Strategol** | Ardaloedd wedi'u dynodi gan Lywodraeth Cymru lle ceir canolbwyntio ar fentrau integredig, trawsbynciol wedi'u hanelu at ddatblygu ac adfywio economaidd. |
| **ASNW** | **Coetir lled-naturiol hynafol** yw coetir hynafol lle mae'r coed a'r llwyni yn lled-naturiol. Y rhain fel arfer yw'r coetiroedd pwysicaf ar gyfer bioamrywiaeth. |
| **BAP** | Mae **Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth** yn gynllun ar gyfer cynefin neu rywogaeth allweddol, er mwyn sefydlu beth yw'r ffactorau am eu dirywiad a'r gwaith sydd angen i'w hadfer. Cymeradwyir y cynlluniau cenedlaethol gan y Llywodraeth, ac maent yn ffurfio rhan o Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth cyffredinol y DU. Daeth yr impetws gwreiddiol ar gyfer y cynlluniau hyn o'r Cytundeb ar Amrywiaeth Fiolegol yn 1992. |
| **BARS** | Y **System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth** yw'r system adrodd ar gyfer Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth (BAPau) y DU, cenedlaethol, lleol a rhai gan gwmnïau, a'r Strategaethau a'r Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth ar gyfer pob un o'r pedair gwlad |
| **Bioamrywiaeth** | Yr amrywiaeth o ecosystemau ac organebau byw (rhywogaethau), gan gynnwys amrywiad genetaidd oddi mewn i rywogaethau. |
| **BWW** | **Coetiroedd Gwell i Gymru** yw'r cynllun grantiau coetiroedd a weinyddir gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru. Ddaeth y cynllun ar gyfer ymgeiswyr newydd i ben ym mis Rhagfyr 2010 |
| **Cadwyn Gyflenwi** | System o sefydliadau, pobl, technoleg, gweithgareddau gwybodaeth ac adnoddau sy'n ymwneud â symud cynnyrch neu wasanaeth o'r cyflenwr at y cwsmer. |
| **Canolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru** | Yn cydlynu ymchwil amgylcheddol yng Nghymru, er mwyn atgyfnerthu'r sail dystiolaeth ar gyfer Strategaeth Amgylcheddol Cymru. Mae'r Ganolfan yn hyrwyddo cydweithio rhwng darparwyr ymchwil mewn prifysgolion a sefydliadau ymchwil, a defnyddwyr ymchwil (y llywodraeth a'i hasiantaethau'n bennaf). |

| | |
|---|---|
| **CCC** | Mae **Comisiwn Coedwigaeth Cymru** yn gweithredu fel Adran Goedwigaeth Llywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am reoli'r 38 y cant o goetiroedd Cymru sydd ar Ystad Goedwig Llywodraeth Cymru. Mae CCC yn rhoi cyngor, ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar ddatblygu a gweithredu polisi coedwigaeth; yn annog rheolaeth gynaliadwy ar goetiroedd yn y sector preifat; yn gweinyddu grantiau; ac yn gyfrifol am waith rheoleiddio, gan gynnwys trwyddedu ar gyfer cwympo coed ac ailblannu. |
| **CCGC** | **Cyngor Cefn Gwlad Cymru** yw ymgynghorydd statudol y Llywodraeth ar gynnal harddwch naturiol, bywyd gwyllt a'r cyfle i fwynhau'r awyr agored yng Nghymru a'i dyfroedd mewndirol. |
| **CDG** | **Cynllun Datblygu Gwledig** Cymru 2007-2013 yw'r modd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gweithgareddau sy'n cefnogi'r cefn gwlad a chymunedau gwledig, gan annog rheolaeth gynaliadwy o amaethyddiaeth a'r amgylchedd. |
| **CGD** | **Coedwigaeth Gorchudd Di-dor** - neu Reolaeth Coedwig Nes at Natur - rheolaeth coedwigoedd lle y cynhelir stoc dyfu barhaol, a lle y rheolir cynnydd drwy ymyrraeth gylchol. |
| **CGGC** | Mae **Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru** yn cynrychioli'r sector gwirfoddol yng Nghymru. |
| **Chwarae Cymru** | Y corff cenedlaethol ar gyfer chwarae gan blant yng Nghymru; elusen annibynnol a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ei nod yw bod yn eiriolwr dros chwarae plant a chynyddu'r ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth o bwysigrwydd chwarae yn iechyd a lles plant. |
| **CLlLC** | **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru,** yn cynrychioli buddiannau awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r tri awdurdod tân ac achub, y pedwar awdurdod heddlu a'r tri awdurdod parc cenedlaethol yn aelodau cyswllt. |
| **Coedamaeth** | Technegau edrych ar ôl coetiroedd a'u hadfywio, a chynaeafu'u cynhyrchion ffisegol. |
| **Coedwigoedd** | Yn gyffredinol, ardaloedd helaeth o dir wedi'u gorchuddio'n bennaf gan goed. |
| **Coedwig Genedlaethol Cymru** | Yr holl goetiroedd yng Nghymru, cyhoeddus a phreifat, yn awr ac yn y dyfodol. |
| **Coetir** | Tir lle bydd y cyflwr ecolegol dan ddylanwad cryf y canopi coed. Yn nhermau ystadegau gorchudd tir (yn y DU), diffinnir coetir ar hyn o bryd fel tir gyda choed lle byddai'r coed aeddfed yn gorchuddio mwy nag 20 y cant yn ôl arwynebedd. Gelwir darnau mawr o dir fel arfer yn goedwigoedd. Disgrifir unedau llai mewn amrywiaeth o dermau megis coetiroedd, coedydd, coedlannau a lleiniau cysgodi. Nid oes dim maint lleiafswm ar gyfer coetir. |

| | |
|---|---|
| **Coetir brodorol** | Coedwigoedd wedi eu gwneud yn bennaf neu'n gyfan gwbl o rywogaethau brodorol lleol. |
| **Coetir hynafol** | Safleoedd sydd wedi bod dan goed yn ddi-dor ers cyn 1600 OC. |
| **Coetir lled-naturiol** | Mae coetiroedd lled-naturiol wedi eu gwneud o goed a llwyni sy'n frodorol i'r safle yn bennaf, a heb fod yn amlwg wedi'u plannu (nid oes unrhyw goedwigoedd gwir 'naturiol' ar ôl yn y DU), felly maent yn ymddangos eu bod wedi codi'n bennaf o adfywio naturiol neu drwy dyfiant coedlan/tocbren o goed unigol wedi adfywio'n naturiol. |
| **Cynllun grant Camau Cyntaf** | Cynllun grant cyfalaf (wrthi'n cael ei ddatblygu) yn canolbwyntio'n bennaf ar greu coetiroedd ar raddfa fechan, gyda rhai cyfleoedd cyfyngedig i amddiffyn a gwella rhai coetiroedd sydd eisoes yn bod. |
| **Cynefin Agored** | Cynefin lle nad oes unrhyw orchudd coed (neu lle mae gorchudd coed cyfyngedig) e.e. corsydd, rhosydd a glaswelltir. |
| **Cynefinoedd agored sydd â blaenoriaeth** | Cynefinoedd nad ydynt yn goetiroedd a nodwyd fel rhai dan fygythiad ac sy'n destun Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU. Mae'r rhain yn cynnwys gweundir uchel, gorgors, glaswelltir sur sych tir isel, dôl iseldir a glaswelltir calchog iseldir. |
| **Cynefinoedd coetir â blaenoriaeth a chynefinoedd coetir brodorol â blaenoriaeth** | Cynefinoedd coetir a nodwyd fel rhai dan fygythiad ac sy'n destun Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU. Y cynefinoedd coetir â blaenoriaeth yng Nghymru yw coetir derw'r ucheldir; coetir ynn cymysg yr ucheldir; coetir gwlyb; coetir ffawydd; a choetir llydanddail cymysg yr iseldir. |
| **Cynllun Gofodol Cymru** | Cynllun 20 mlynedd ar gyfer datblygu cynaliadwy Cymru a luniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. |
| **Cynaliadwyedd** | Mewn ystyr gyffredinol, y gallu i gynnal proses neu gyflwr neilltuol yn ddiderfyn. Mae'r cysyniad o gynaliadwyedd yn gymwys i bob agwedd ar fywyd ar y Ddaear ac mae'n cael ei ddiffinio fel arfer mewn cyd-destunau ecolegol, cymdeithasol ac economaidd. |
| **Cynllun Gweithredu Pridd Cymru** | Cydran o Strategaeth Amgylcheddol Llywodraeth Cymru, sy'n nodi camau i'w cymryd i amddiffyn a gwella priddoedd, a gyhoeddir yn 2010. |
| **Cyswllt Ffermio** | Cynllun gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu cefnogaeth un-i-un noddedig, gwybodaeth, arbenigedd, hyfforddiant a gwasanaethau ymgynghori i helpu i ddatblygu busnesau ffermydd. |

| | |
|---|---|
| **Dysgu yn y Gwir Fyd Cymru** | Corff partneriaeth sy'n cefnogi a hyrwyddo cyflwyno dysgu allan o'r ystafell ddosbarth. |
| **Dinasyddiaeth fyd-eang** | Y cysyniad o ddinasyddiaeth ar lefel fyd-eang gan gydnabod cyfrifoldebau rhywun nid yn unig at bobl eraill ond at y Ddaear ei hun. Mae a wnelo dinasyddiaeth fyd-eang â deall yr angen i ymdrin ag anghyfiawnder ac anghydraddoldeb, a bod ã'r awydd a'r gallu i weithio'n weithredol i wneud hynny. Mae a wnelo hi ã rhoi gwerth ar y Ddaear fel rhywbeth gwerthfawr ac unigryw, a diogelu'r dyfodol i'r rhai a ddaw ar ein holau. |
| **Ecosystem** | Rhyngweithrediad cymunedau o blanhigion ac anifeiliaid (gan gynnwys bodau dynol) gyda'i gilydd a chyda'r amgylchedd anfyw. Mae ecosystemau cytbwys yn sefydlog pan ystyrir hwy dros y tymor hir - cannoedd o flynyddoedd yn achos coetiroedd. |
| **FR** | **Forest Research,** sef asiantaeth dan Gomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr sy'n cynnig gwasanaethau ymchwil, datblygu a monitro i gefnogi coedwigaeth y DU, y Comisiwn Coedwigaeth a pholisïau Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig. |
| **FSC** | **Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd,** sef corff rhyngwladol, anllywodraethol sy'n hyrwyddo rheoli cyfrifol ar goedwigoedd. Mae FSC yn cynnal cynllun ardystio coedwigoedd byd-eang sy'n caniatãu i gwsmeriaid adnabod, prynu a defnyddio cynhyrchion coed a choedwigoedd a gynhyrchir gan goedwigoedd a reolir yn dda. |
| **FSW** | **Ysgol y Goedwig Cymru,** sef sefydliad gwirfoddol sy'n cefnogi darpariaeth Ysgol y Goedwig yng Nghymru. |
| **FUTUREforest** | Prosiect Ewropeaidd INTERREG IV C sy'n edrych ar y ffyrdd gorau y gall coed a choetiroedd helpu i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae'n bartneriaeth o 7 rhanbarth yn Ewrop, gan gynnwys Cymru, yn rhannu profiadau a syniadau ar reoli dŵr, bioamrywiaeth, amddiffyn pridd, peryglon naturiol, cynhyrchu coed a rheoli carbon. Nod FUTUREforest yw nodi bygythiadau, gwendidau a chryfderau coedwigoedd Ewrop, wrth iddynt fynd i'r afael ã newid yn yr hinsawdd; datblygu technegau rheoli gorau i arwain y rheiny sy'n llunio polisïau a rhanddeiliaid. |
| **FCA** | **Cymdeithas Contractio Coedwigaeth** |
| **FCGB** | **Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr,** yw adran y llywodraeth sy'n gyfrifol am amddiffyn ac ymestyn coedwigoedd a choetiroedd Prydain. |

| | |
|---|---|
| **FEI** | **Menter Addysg y Goedwig,** sef partneriaeth rhwng y sectorau coedwigaeth a phrosesu coed, amgylcheddwyr ac addysgwyr. Mae FEI yn anelu at gynyddu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad, yn enwedig ymysg pobl ifanc, o botensial amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd coed, coetiroedd a choedwigoedd ac o'r cyswllt rhwng y goeden a chynhyrchion pren pob dydd. Mae FEI yn gweithio gyda phobl ifanc drwy ei rwydwaith cenedlaethol o grwpiau clwstwr lleol. |
| **Fforymau Mynediad Lleol** | Mae gan y 29 Fforwm Mynediad Lleol yng Nghymru ddyletswydd statudol dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i gynnig cyngor, a thrafod gwella a rheoli mynediad gan y cyhoedd. Rhoddir ystyriaeth i fynediad hamdden o bob math, gan gynnwys cerdded, marchogaeth a beicio. |
| **Fforwm Coetir i Ddysgu** | Corff partneriaeth sydd â'r swyddogaeth o helpu i uchafsymio'r defnydd ar goetiroedd ar gyfer dysgu drwy lywio datblygiadau, gan sicrhau eu bod yn dilyn anghenion y gymuned sy'n dysgu ac yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol ar adnoddau cyfyngedig. |
| **GCGDd** | Mae'r Grŵp Coedwigaeth Gorchudd Di-dor yn hyrwyddo trawsnewid planhigfeydd o'r un oedran yn goedwigoedd amrywiol, o ran eu strwythur, golwg a bioleg, lle y cynhyrchir coed o ansawdd uchel mewn ffordd gynaliadwy yn unol ag egwyddorion rheolaeth gorchudd di-dor. Mae'r Grŵp Coedwigaeth Gorchudd Di-dor yn aelod o ProSilva Europe, ffederasiwn o sefydliadau coedwig sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo systemau coedwriaethol 'agos at natur'. |
| **Glastir** | Cynllun rheoli tir newydd gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn cymryd lle 5 cynllun amaeth-amgylcheddol presennol yn 2012. Fe lansiwyd Grant  Creu Coetir Glastir ym mis Hydref 2010. Yn 2013 fe fydd grantiau ar gyfer rheoli coetiroedd yn cael eu hymgorffori i mewn i Glastir. |
| **Gwasanaethau ecosystem** | Term cyfunol ar gyfer yr adnoddau a'r prosesau niferus a gyflenwir gan ecosystemau naturiol, sydd o fudd i ddynolryw. Mae gwasanaethau ecosystemau yn wahanol i gynhyrchion a  swyddogaethau ecosystem eraill oherwydd bod galw dynol am yr asedau naturiol hyn, ac mae llawer o astudiaethau wedi ceisio meintioli gwerth economaidd y gwasanaethau hyn. Maent yn cynnwys gwasanaethau cyflenwadau (fel bwyd, dŵr a choed); gwasanaethau diwylliannol (buddion hamdden, iechyd, aesthetaidd ac ysbrydol); gwasanaethau rheoleiddio (amddiffyn adnoddau dŵr a phridd; cynnig lloches, cysgod ac oeri, cloi carbon atmosfferig); a gwasanaethau cefnogi (ffurfio pridd a ffotosynthesis). |
| **HEG** | Sefydlwyd **Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol** yn 2004 i gynghori Llywodraeth Cymru ar gamau gweithredu a fydd er lles amgylchedd hanesyddol Cymru ac yn ei hyrwyddo. Mae'n nodi'n benodol beth yw'r materion strategol a'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. CADW sy'n cadeirio a chynnig ysgrifenyddiaeth ac mae'r aelodaeth yn cynnwys Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru, CCGC a CLlLC. |
| **Hen goeden** | Coeden sydd, oherwydd ei hoed mawr, ei maint neu'i chyflwr o werth diwylliannol eithriadol, oddi mewn i'r dirwedd neu ar gyfer bywyd gwyllt. |

| | |
|---|---|
| **Iechyd Cyhoeddus Cymru** | Sefydlwyd **Iechyd Cyhoeddus Cymru** fel Ymddiriedolaeth GIG ar 1 Hydref 2009. Mae'n dod â'r sefydliadau a'r gwasanaethau canlynol at ei gilydd: Gwasanaeth Cofrestr a Gwybodaeth Anomaleddau Cynhenid (CARIS), Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (GICCC), Gwasanaethau Sgrinio Cymru - Sgrinio Cyn Geni Cymru, Bron Brawf Cymru, Sgrinio Coluddion Cymru, Sgrinio Serfigol Cymru, Sgrinio Clyw Babanod Newyddenedigol, Canolfan Iechyd Cymru, Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru (WCISU). |
| **Llwybrau Dysgu 14-19** | Ymrwymiad i drawsffurfio'r ddarpariaeth ddysgu i holl bobl ifanc Cymru.<br>Mae'n ymdrin â'r angen am ymagwedd fwy hyblyg a chytbwys at addysg rhai 14-19 oed. |
| **Lantra** | Y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer diwydiannau amgylcheddol a diwydiannu'r tir sy'n gweithio gyda diwydiannau ar hyd a lled y DU. |
| **Llais y Goedwig** | Wedi ei lansio'n ffurfiol yn Chwefror 2009 mae Llais y Goedwig yn gymdeithas sy'n cefnogi a chynrychioli coetiroedd cymunedol yng Nghymru. |
| **LlC** | **Llywodraeth Cymru.** Mae'r adrannau'n cynnwys:<br>**DES** - Adran Addysg a Sgiliau<br>**DESD** - Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy<br>**DLGC** - Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol<br>**SEED** - Yr Isadran Cynaliadwyedd a Thystiolaeth Amgylcheddol |
| **Ôl troed carbon** | Cynrychiolaeth o'r effaith y gall gweithgarwch dynol ei chael ar yr hinsawdd yn nhermau'r swm net o nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir, fel arfer wedi eu mesur fel tunelli o garbon ar ffurf bod yn gyfwerth â charbon deuocsid. |
| **PAWS** | Mae **Planhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol yn** gyn Goetiroedd Lled-naturiol Hynafol (ASNW) sydd fwy neu lai wedi eu hailblannu'n llwyr gyda rhywogaethau brodorol neu anfrodorol, gan ddiraddio gwerth ecolegol y safle. Mae'r raddfa o golli bioamrywiaeth yn amrywio'n fawr yn ôl y rhywogaethau a blannwyd a'r rheolaeth ddilynol. |
| **PEFC** | **Rhaglen Cefnogi Ardystio Coedwigoedd,** sef sefydliad annibynnol, di-elw, anllywodraethol, sy'n hyrwyddo coedwigoedd a reolir yn gynaliadwy drwy ardystio trydydd parti annibynnol. |
| **Plant!** | Menter gan Lywodraeth Cymru i blannu coeden am bob baban newydd a phob plentyn a fabwysiedir yng Nghymru o 1 Ionawr 2008, gan helpu i greu Coedwig Genedlaethol Cymru o goed brodorol. |

| | |
|---|---|
| **Partneriaeth adfywio strategol** | Partneriaeth o gyrff cyhoeddus, preifat ac o'r sector gwirfoddol sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella lles cymunedau drwy welliannau cymdeithasol, ffisegol, economaidd ac amgylcheddol. |
| **PSPFG** | **Grŵp Rhagolwg Cynhyrchu'r Sector Preifat** (FCGB) o gynrychiolwyr a rheolwyr coetiroedd sy'n datblygu rhagolygon ar gyfer argaeledd coed i'r sector coetiroedd preifat. |
| **Rhaglen Blaenau'r Cymoedd** | Strategaeth adfywio 15 mlynedd a ddatblygwyd mewn partneriaeth gyda phum awdurdod lleol (Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent a Thorfaen), a rhanddeiliaid lleol eraill i fynd i'r afael ag achosion craidd anweithgarwch economaidd a materion allweddol eraill yng nghyd-destun Cynllun Gofodol Cymru. |
| **Rhagolwg cynhyrchu** | Rhagolwg o'r coed sydd ar gael yn y sector cyhoeddus a phreifat. |
| **Rheoli coedwig cynaliadwy** | 'Stiwardiaeth a defnydd ar goedwigoedd a thir coedwigoedd mewn ffordd, ac ar gyfradd, sy'n cynnal eu bioamrywiaeth, cynhyrchiant, gallu i adfywio, bywiogrwydd a photensial i gyflawni, yn awr ac yn y dyfodol, swyddogaethau ecolegol, economaidd a chymdeithasol perthnasol, ar lefelau lleol, cenedlaethol a byd-eang, ac nad yw'n achosi difrod i ecosystemau eraill'. (Ail Gynhadledd y Gweinidogion ar Amddiffyn Coedwigoedd yn Ewrop, Helsinki; 1993) |
| **Rhestr adran 42** | Wedi'i diffinio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru dan Adran 42 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, hon yw'r rhestr derfynol o gynefinoedd a rhywogaethau sydd o'r pwys mwyaf i fioamrywiaeth yng Nghymru. |
| **Rhestr Coedwigoedd Cenedlaethol** | Arolwg cenedlaethol cyfnodol sy'n nodi gorchudd coetiroedd; coetiroedd yn ôl perchnogaeth; a choetiroedd yn ôl Math Deongledig o Goedwig. Cesglir ystod helaeth o wybodaeth megis rhywogaethau, oed a dwysedd stocio. |
| **Rhywogaethau â blaenoriaeth a rhywogaethau coetir â blaenoriaeth** | Rhywogaethau a nodwyd fel rhai dan fygythiad ac sy'n destun Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU. Mae rhywogaethau coetir â blaenoriaeth yng Nghymru yn cynnwys y gwybedog mannog, telor y coed, y rugiar ddu, coch y berllan, y wiwer goch, y pathew a sawl rhywogaeth o ystlum. |
| **Rhywogaethau brodorol** | Rhywogaethau a gyrhaeddodd Gymru heb gymorth dynion yn ystod y coloneiddio ôl-rewlifol. |

| | |
|---|---|
| **Rhywogaethau ymledol** | Planhigion ac anifeiliaid anfrodorol nad oes eu heisiau sy'n effeithio er gwaeth ar y cynefinoedd maent yn eu meddiannu (yn economaidd, yn amgylcheddol neu'n ecolegol) yn aml er niwed i rywogaethau brodorol. |
| **ROWIP** | **Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy,** y mae'n ofynnol i awdurdodau priffyrdd yng Nghymru eu cynhyrchu (dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000). Bwriedir i ROWIPau gwmpasu cyfnod o 10 mlynedd, gan ddarparu cynllun wedi'i flaenoriaethu ar gyfer gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy lleol i bob defnyddiwr. |
| **Sefydliad Iechyd Gwledig** | Elusen academaidd ar gyfer y DU gyfan sy'n gweithio i lywio, datblygu a hyrwyddo iechyd a lles pobl wledig a'u cymunedau trwy ymchwil a phrosiectau, addysg a hyfforddiant a dadansoddi polisïau. |
| **SRF** | **Coedwigaeth Cylchdro Byr,** sef amaethu coed sy'n tyfu'n gyflym am 8 - 20 mlynedd. Yn aml mae'r coed yn cael eu coedlannu. |
| **SoDdGA** | **Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig,** sef dynodiad cadwraeth yn enwi ardal ym Mhrydain a warchodir oherwydd ei fywyd gwyllt neu ei ddaeareg. |
| **Taclo Tipio Cymru** | Prosiect gan Lywodraeth Cymru, dan arweiniad Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, i leihau tipio anghyfreithlon yn y tymor hir, trwy ymgysylltu â busnesau, addysg, gweithredu cymunedol, mesurau cyhoeddusrwydd wedi'u targedu a chamau gorfodi. |
| **UKFS** | **Safon Coedwigaeth y DU,** sef ymagwedd llywodraeth y DU at goedwigaeth gynaliadwy. Mae'n gosod ger bron y meini prawf a'r safonau ar gyfer rheolaeth gynaliadwy ar holl goedwigoedd a choetiroedd y DU. |
| **UKNWHAP** | **Cynllun Gweithredu Cynefin Coetir Brodorol y DU** |
| **UKWAS** | **Safon Sicrwydd Coetir y DU,** sef safon ardystio annibynnol ar gyfer cadarnhau rheolaeth coetir gynaliadwy yn y DU. Ar hyn o bryd UKWAS yw cydran ganolog y rhaglen ardystio coedwigoedd a reolir yn y DU gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd. |
| **WBP** | Mae **Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru** yn cynnig rôl arweinyddol a chyfeiriad arbenigol ar flaenoriaethau ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth yng Nghymru. |
| **WEL** | **Cyswllt Amgylchedd Cymru,** sef y corff ambarél ar gyfer cyrff amgylcheddol, yw'r corff cyfryngu swyddogol rhwng y llywodraeth a'r sector amgylcheddol anllywodraethol yng Nghymru. Mae WEL yn rhwydwaith o gyrff amgylcheddol a chefn gwlad anllywodraethol, sydd â chylch gwaith Cymru gyfan yn bennaf. |

| | |
|---|---|
| **WFBP** | **Partneriaeth Busnes Coedwigoedd Cymru,** sef grŵp gwirfoddol o fusnesau a chyrff eraill a sefydlwyd i gwrdd â'r amcan o ddatblygu diwydiannau cynnyrch coedwig o safon fyd-eang. Cred yr aelodau y bydd gweithgareddau ar y cyd a wneir gan y bartneriaeth yn cryfhau cystadleurwydd eu busnesau a'r sector coedwigaeth yn gyfan. |
| **WT** | **Coed Cadw,** sef elusen gadwraeth coetir fwyaf blaenllaw y DU. |
| **Ysgol y Goedwig** | Ymagwedd addysgol arloesol at chwarae a dysgu yn yr awyr agored. Athroniaeth Ysgol y Goedwig yw annog ac ysbrydoli unigolion o unrhyw oed drwy brofiadau awyr agored cadarnhaol rheolaidd. Mae Ysgolion y Goedwig ym Mhrydain wedi eu datblygu a'u haddasu o'r cysyniad gwreiddiol a roddwyd ar waith yn Sweden yn y 1950au a'i ddatblygu ar hyd a lled gwledydd eraill yn Llychlyn ac Ewrop. |
| **Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr** | Darn sylweddol o ddeddfwriaeth gan y Comisiwn Ewropeaidd a luniwyd i atal ecosystemau dyfrol rhag dirywio ymhellach, i hyrwyddo'r defnydd cynaliadwy o dŵr ac i leihau llygredd dŵr. Bydd yn darparu'r gyriant pennaf ar gyfer sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar dŵr yn y DU a'r Aelod-Wladwriaethau eraill. |
| **Ymddiriedolaethau Archaeolegol** | Mae'r pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol yng Nghymru yn cadw Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol, ac yn ymwneud â pholisïau sy'n berthnasol i gadw, cofnodi, dehongli a chyflwyno archaeoleg, tirweddau hanesyddol a threftadaeth adeiledig Cymru. |